Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GSR

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif Ymchwil Gymdeithasol: 56/2026

Dyddiad cyhoeddi: 24/03/2026

# Gwerthusiad o'r cynllun peilot cronfa ddata plant sy'n colli addysg

This document is also available in English.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-83745-359-7

Gwerthusiad o'r cynllun peilot cronfa ddata plant sy'n colli addysg

Awduron: Nia Bryer a Heledd Bebb, Ymchwil OB3

Adroddiad Ymchwil Llawn: Bryer, N a Bebb, H. (2026). Gwerthusiad o'r cynllun peilot cronfa ddata plant sy'n colli addysg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad o Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth rhif 56/2026.

Gellir dod o hyd i'r adroddiad hwn ar dudalennau Ystadegau ac ymchwil gwefan Llywodraeth Cymru: https://www.llyw.cymru/ystadegau-ac-ymchwil

Safbwyntiau'r ymchwilydd sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad hwn ac nid o reidrwydd safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch â:

Cangen Ymchwil Ysgolion
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

## Tabl cynnwys


Rhestr o dablau....4

Rhestr o ffigurau....4

Rhestr o dermau....5

1. Cyflwyniad....8

2. Methodoleg....9

2.1. Dull....9

2.2. Ystyriaethau methodolegol....10

2.3. Strwythur yr adroddiad hwn....11

3. Y cefndir a'r ddamcaniaeth newid....12

3.1. Y cyd-destun deddfwriaethol a'r cyd-destun polisi....12

3.1.1. Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg....12

3.2. Rheoliadau cronfa ddata plant sy'n colli addysg....13

3.3. Trosolwg o'r cynnydd a wnaed....15

3.3.1. Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Peilota) (Cymru) 15

3.3.2. Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Peilota) (Cymru) 2025....16

3.4. Damcaniaeth newid....16

4. Trefniadau awdurdodau lleol mewn perthynas â PCA....18

4.1. Dull o nodi PCA....18

4.1.1. Rheolaeth ac arweinyddiaeth strategol....18

4.1.2. Rhwydweithiau a phwyntiau cyswllt....18

4.1.3. Systemau gwybodaeth....18

4.1.4. Sicrhau darpariaeth addysg....19

4.1.5. Systemau effeithiol ar gyfer monitro disgyblion....19

4.2. Olrhain trefniadau pontio a dadgofrestru....19

4.2.1. Olrhain trefniadau pontio o'r feithrinfa i'r dosbarth derbyn....20

4.2.2. Olrhain trefniadau pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7....20

4.2.3. Olrhain disgyblion sy'n cofrestru mewn ysgolion mewn awdurdodau lleol cyfagos....21

4.2.4. Atal dadgofrestru amhriodol....21

4.2.5. Camau dilynol pan nad yw dysgwyr yn ymddangos ar gofrestr yn ôl y disgwyl.. ....22
4.2.6. Protocolau ar gyfer olrhain disgyblion sy'n pontio i'r sector ysgolion annibynnol ....23
4.2.7. Adborth gan ysgolion annibynnol ar wybodaeth y gofynnir amdani wrth i ddisgyblion gofrestru ....24
4.3. Cronfeydd data PCA awdurdodau lleol ....25
4.3.1. Mathau o ddata a gofnodir ....26
4.3.2. Cynnwys teuluoedd sy'n darparu addysg anaddas ....26
4.3.3. Cynnwys plant heb nad yw eu cyrchfan yn hysbys ....26
4.3.4. Cofnodi hyd yr addysg a gollir ....26
5. Trosglwyddo a pharu data disgyblion ....28
5.1. Derbyn data ar gyfer y cynllun peilot ....28
5.1.1. Data gan y GIG ....28
5.1.2. Ansawdd data'r GIG ....28
5.1.3. Trosglwyddo data o ysgolion annibynnol ....28
5.1.4. Derbyn data gan ysgolion annibynnol ....29
5.2. Dilysu a pharu data ....30
5.2.1. Dulliau paru awtomataidd a lled-awtomataidd ....30
5.2.2. Paru data â llaw ....31
5.2.3. Cofnodion a gafodd eu paru ....31
6. Nodi plant a allai fod yn colli addysg ac ymgysylltu â nhw ....33
6.1. Nodi mwy o blant a allai fod yn colli addysg ....33
6.2. Camau dilynol a gymerwyd gan yr awdurdod lleol i nodi PCA ....34
7. Myfyrdodau o'r prosiect peilot ....35
7.1. I ba raddau y mae'r cynllun peilot wedi nodi PCA nad oeddent yn hysbys o'r blaen . ....35
7.2. Gwelliannau a gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â rhannu data iechyd ....36
7.3. Gwelliannau a gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â rhannu data ysgolion annibynnol ....37
7.4. Diwygiadau neu welliannau pellach a awgrymir i'r rheoliadau ....39
8. Casgliadau ac argymhellion ....40
8.1. Effeithiolrwydd systemau a phrosesau presennol awdurdodau lleol a oedd yn rhan o'r cynllun peilot ar gyfer canfod plant a allai fod yn colli addysg ....40
8.2. Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses o dderbyn data gan y sector iechyd ..42

8.3. Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd derbyn data gan ysgolion annibynnol ..............43
8.4. Nodi nifer y plant a allai fod yn colli addysg a ganfuwyd o ganlyniad i'r cynllun peilot cronfa ddata PCA ..........44
8.5. Cymharu nifer y PCA a oedd yn hysbys cyn ac ar ôl y cynllun peilot cronfa ddata PCA ..........45
8.6. Penderfynu a oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r rheoliadau neu'r broses o dderbyn data ..........45
Atodiad A: Offerynnau ymchwil ..........47

# Rhestr o dablau

Tabl 5.1: Cyfanswm y cofnodion plant a gafodd eu derbyn a'u paru yn ystod y prosiect peilot ........................................................................................................................ 32
Tabl 6.1: Nifer y plant a allai fod yn colli addysg a nodwyd o ganlyniad i'r cynllun peilot ..... 33

# Rhestr o ffigurau

Ffigur 3.1: Damcaniaeth newid ar gyfer y prosiect peilot cronfa ddata PCA ........................ 17

# Rhestr o dermau

**Addysg Ddewisol yn y Cartref**

Term i ddisgrifio achosion ble mae rhieni neu warcheidwaid wedi penderfynu darparu addysg yn y cartref i'w plentyn/plant yn lle eu hanfon i'r ysgol yn llawn amser.

**Addysg heblaw yn yr ysgol** (AHY)

Addysg a ddarperir mewn amrywiol leoliadau heblaw am amgylcheddau ysgol traddodiadol a ddarperir gan awdurdodau lleol (h.y., mae gan yr awdurdod lleol gyfrifoldeb ariannol drosto). Gall gynnwys mewn ysgolion ysbytai, unedau cyfeirio disgyblion, ysgolion arbennig annibynnol, drwy e-ddysgu a darpariaeth drwy sefydliadau'r trydydd sector.

**Anghenion Dysgu Ychwanegol** (ADY)

Mae gan berson anghenion dysgu ychwanegol os oes ganddo anhawster dysgu neu anabledd (p'un a yw'r anhawster dysgu neu'r anabledd yn deillio o gyflwr meddygol neu beidio) sy'n gofyn am ddarpariaeth ddysgu ychwanegol.

**Awdurdod lleol** (ALl)

Mae hyn yn cyfeirio at y cyngor perthnasol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau llywodraeth leol o fewn ardal benodol e.e. gofal cymdeithasol, addysg.

**Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn** (CCUHP)

Cytuniad rhyngwladol sy'n amlinellu hawliau sifil, gwleidyddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol plant, a fabwysiadwyd gan y Cenhedloedd Unedig ym 1989.

**Cyfrifiad ysgolion blynyddol ar lefel disgyblion** (CYBLD)

Casgliad blynyddol drwy gyfrifiad electronig, a gynhelir fel arfer ym mis Ionawr, o ddata ar ddisgyblion unigol yng Nghymru.

**Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru** (WISC)

Sefydliad aelodaeth sy'n cynrychioli buddiannau ysgolion annibynnol yng Nghymru.

**Cynllun Datblygu Unigol** (CDU)

Mae hwn yn amlinellu Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) plentyn neu berson ifanc a'r Ddarpariaeth Ddysgu Ychwanegol (DDdY). Mae'n ddogfen gyfreithiol, a rhaid dogfennu'r DDdY yn y CDU. Mae'n hawl gyfreithiol o dan y system ADY newydd yng Nghymru. Mae'n ddogfen sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n cael ei datblygu gyda mewnbwn gan y plentyn a'i rieni/gofalwyr neu weithwyr proffesiynol. Rhaid ei hadolygu yn flynyddol o leiaf.

**Gwasanaeth Cofnodion Dysgu**

Gwasanaeth a reolir gan Adran Addysg y DU yw hen a ddarperir ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Mae'n cynnwys porth sy'n cynnwys manylion dysgwyr 14 oed a hŷn

**Gwasanaeth Iechyd Gwladol** (GIG)

System gofal iechyd a ariennir yn gyhoeddus yn y Deyrnas Unedig sy'n darparu gwasanaethau meddygol a gwasanaethau iechyd am ddim ar yr adeg y cânt eu defnyddio.

**Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol** (GMC)

Contract craidd y GIG y mae meddygon teulu yn darparu gwasanaethau gofal sylfaenol oddi tano.

**Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru** (PCGC)

Sefydliad o fewn GIG Cymru sy'n darparu cydwasanaethau corfforaethol, cyflogaeth a chaffael i gefnogi cyrff gofal iechyd ledled Cymru.

**Plant sy'n Colli Addysg** (PCA)

Plant o oedran ysgol gorfodol nad ydynt yn ddisgyblion cofrestredig mewn ysgol, nad ydynt yn cael eu haddysgu yn y cartref ac nad ydynt yn derbyn unrhyw ddarpariaeth amgen.

**Rhif Cyfeirnod Eiddo Unigryw** (UPRN)

Dynodydd unigryw ar ffurf rhif sy'n cael ei neilltuo i bob cyfeiriad yn y DU, a ddefnyddir ar gyfer cysylltu setiau data daearyddol a gweinyddol.

**Rhif Unigryw'r Disgybl** (RhUD)

Dynodydd unigryw a neilltuir i bob disgybl i gefnogi'r gwaith o gasglu a monitro data drwy gydol eu blynyddoedd ysgol

**Rhif Unigryw'r Dysgwr** (ULN)

Rhif cyfeirnod a neilltuir i ddysgwr unigol i olrhain eu cofnodion addysgol.

**Set Ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru** (WDSD)

Cronfa ddata sy'n cynnwys gwybodaeth ddemograffig am drigolion yng Nghymru, a ddefnyddir yn bennaf ar gyfer cynllunio gofal iechyd a darparu gwasanaethau.

**Swyddog Lles Addysg**

Gweithiwr proffesiynol a gyflogir gan awdurdod lleol neu ysgol i hyrwyddo presenoldeb rheolaidd yn yr ysgol a mynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â lles disgyblion.

**System Gwybodaeth Reoli**

Data a chofnodion a ddefnyddir gan sefydliadau i fonitro perfformiad, seilio penderfyniadau arnynt, a chefnogi trefniadau rheoli effeithiol.

**Y Swyddfa Ystadegau Gwladol** (SYG)

Asiantaeth swyddogol sy'n casglu, dadansoddi a chyhoeddi ystadegau ar yr economi, y boblogaeth a chymdeithas.

**Y Tu Allan i'r Sir**

Disgybl sy'n cael ei leoli neu'n derbyn gwasanaethau, gan gynnwys darpariaeth addysg, y tu allan i'r awdurdod lleol y mae'n preswylio ynddo.

# 1. Cyflwyniad

Penodwyd Ymchwil OB3 gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025 i gynnal gwerthusiad o'r cynllun peilot cronfa ddata plant sy'n colli addysg (PCA). Nod y gwerthusiad oedd asesu effeithiolrwydd y cynllun peilot hwn a nodi gwersi fel sail i'r posibilrwydd o gyflwyno'r trefniadau cronfa ddata ledled Cymru yn y dyfodol.

Amcanion y gwerthusiad oedd:

- nodi nifer y plant a allai fod yn colli addysg a ganfuwyd o ganlyniad i'r cynllun peilot cronfa ddata PCA
- cymharu nifer y PCA a oedd yn hysbys cyn y cynllun peilot o gronfa ddata'r PCA a'r nifer hysbys y plant allai fod yn colli addysg ar ôl y cynllun peilot
- canfod i ba raddau yr oedd y broses o dderbyn y data gan y bwrdd iechyd yn effeithiol ac yn effeithlon o safbwynt yr awdurdod lleol a'r bwrdd iechyd lleol. Roedd hyn yn cynnwys dilysu'r data a dderbyniwyd gan fyrddau iechyd lleol
- canfod pa mor effeithiol oedd systemau a phrosesau presennol yr awdurdodau lleol peilot ar gyfer canfod plant a allai fod yn colli addysg cyn y peilot
- canfod a oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r rheoliadau neu'r broses o dderbyn data.

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu cefndir y polisi a'r theori newid ar gyfer y cynllun peilot yn ogystal â chanfyddiadau gwaith maes a gynhaliwyd gydag awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan ynddo a rhanddeiliaid eraill, gan gynnwys y sector ysgolion annibynnol.

# 2. Methodoleg

## 2.1. Dull

Cynhaliwyd y rhaglen waith ar gyfer y gwerthusiad hwn mewn 4 cam.

Roedd y cam cyntaf yn cynnwys cyfarfod cychwynnol gyda'r cleient i gytuno ar y dull o gynnal y gwerthusiad a'r amserlen ac i gael mynediad at y dogfennau perthnasol a'r data cysylltiadau.

Roedd yr ail gam yn cynnwys adolygiad desg o ddogfennau. Roedd hefyd yn cynnwys datblygu canllaw ar gyfer cyfweliadau cwmpasu a hysbysiad preifatrwydd ategol. Cynhaliwyd nifer bach o gyfweliadau gyda swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a chynrychiolydd o Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) i egluro nodau, deilliannau bwriadedig a dull gweithredu'r prosiect peilot.

Llywiodd y canfyddiadau o'r cam hwn y gwaith o ddatblygu damcaniaeth newid ddrafft a model rhesymeg cysylltiedig ar gyfer y prosiect peilot. Cyflwynwyd y model rhesymeg drafft yn ystod sesiwn gweithdy gyda grŵp llywio'r astudiaeth a chafodd ei fireinio yng ngoleuni'r adborth a gafwyd. Mae model rhesymeg terfynol y ddamcaniaeth newid i'w weld ym mhennod 3 o'r adroddiad hwn.

Roedd trydydd cam y fethodoleg yn cynnwys datblygu canllawiau trafod ar gyfer cyfweliadau lled-strwythuredig â staff o'r 7 awdurdod lleol a oedd yn rhan o'r prosiect peilot, yn ogystal â chyfweliadau â chynrychiolwyr o'r sector ysgolion annibynnol ledled Cymru. Mae'r rhain i'w gweld yn Atodiad A. Paratowyd ffurflen rhannu data fer hefyd i'w llenwi gan yr awdurdodau lleol. Paratowyd hysbysiadau preifatrwydd dwyieithog a'u rhoi ar-lein. Cafodd hyperddolen i'r hysbysiadau hyn ei rhannu gyda'r holl gyfranwyr at y gwaith maes yn y gwahoddiad cychwynnol i gyfweliad.

Gwaith maes oedd pedwerydd cam yr astudiaeth. Cynhaliwyd cyfweliadau lled-strwythuredig gyda staff awdurdodau lleol o'r 7 ardal beilot. Bwriad y cyfweliadau hyn oedd cael dealltwriaeth o lwyddiannau, heriau, rhwystrau ac effeithiau cynnar y gweithgaredd peilot ym mhob ardal. Cynhaliwyd pob un ohonynt drwy Teams yn ystod mis Medi a dechrau mis Hydref 2025. Cymerodd cyfanswm o 17 o unigolion ran yn y cyfweliadau. Roedd y cyfranogwyr yn cynnwys penaethiaid gwasanaethau (a oedd yn cwmpasu presenoldeb, diogelu a llesiant), swyddogion o fewn y gwasanaethau hynny, a staff sy'n gyfrifol am ddata addysg a systemau gwybodaeth reoli awdurdodau lleol. Yn ogystal â hynny, cwblhaodd 5 awdurdod lleol y ffurflen rhannu data.

Roedd y cam hwn o'r astudiaeth hefyd yn cynnwys casglu adborth gan 6 ysgol annibynnol. [troednodyn 1]. Mae hyn yn cynrychioli 7.5% o'r 80 o ysgolion annibynnol yng Nghymru. Cyfwelwyd â thair ysgol a darparodd y 3 sy'n weddill ymateb ysgrifenedig i'r gwerthusiad. Cafodd ysgolion annibynnol a gyfrannodd at yr astudiaeth eu canfod mewn dwy ffordd. Dosbarthodd Cyngor Ysgolion Annibynnol Cymru (WISC) wahoddiad i'w aelodau i gyfrannu

[1] Mae ysgolion annibynnol yn cynnwys ysgolion preifat y telir amdanynt yn ogystal ag ysgolion arbenigol a gomisiynnir gan awdurdodau lleol.

at y gwerthusiad ar ran tîm yr astudiaeth, gan arwain at recriwtio 3 ysgol. Yn ogystal â hynny, er mwyn mynd i'r afael â rhai bylchau yn y cwmpas daearyddol, ac i sicrhau cynrychiolaeth o ysgolion o'r sector preifat, dewisodd y tîm ymchwil 6 ysgol arall ar hap i gysylltu â nhw gan ddefnyddio gwybodaeth sydd ar gael ar wefan WISC. O blith y rhain, cytunodd 3 i gyfrannu at y gwerthusiad.

O ran proffil y 6 ysgol annibynnol a gyfrannodd at y gwerthusiad:

- roedd 2 ysgol wedi'u lleoli yn yr un awdurdod lleol ac roedd y 4 sy'n weddill mewn ardaloedd gwahanol. Roedd pump wedi'u lleoli o fewn yr awdurdodau lleol peilot ac roedd 1 y tu allan i'r ardal honno
- roedd 2 yn ysgolion cynradd, 1 yn ysgol uwchradd, a 3 yn ysgolion pob-oed, o'r dosbarth meithrin hyd at y chweched dosbarth
- roedd 5 yn ysgolion preifat annibynnol a ariannwyd yn gyfan gwbl gan ffioedd, ac roedd 1 yn ddarparwr ADY arbenigol annibynnol lle yr ariannwyd yr holl leoliadau gan awdurdodau lleol o dan Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) a gynhelir. Roedd gan un o'r ysgolion preifat annibynnol ddisgyblion â CDU a gynhelir gan yr awdurdod lleol hefyd.
- roedd niferoedd y disgyblion yn amrywio'n sylweddol, ac yn amrywio o ran maint o leoliadau bach iawn gyda hyd at 10 o ddisgyblion, i un ysgol ganolig ei maint gyda hyd at 100 o ddisgyblion, a 3 ysgol fwy gyda rhwng 300 ac 800 o ddisgyblion
- roedd gan 1 ysgol ddisgyblion preswyl, a oedd yn cyfrif am 16% o gyfanswm y disgyblion ar ei chofrestr
- roedd 2 ysgol ond yn cofrestru disgyblion o'r awdurdod lleol yr oeddent wedi'u lleoli ynddo, ac roedd disgyblion y lleill yn dod o ddalgylch ehangach. Roedd dau wedi cofrestru disgyblion o'r tu allan i Gymru.

Ar ôl cwblhau'r gwaith maes, roedd cam 5 y gwerthusiad yn cynnwys dadansoddi data'r gwaith maes. Ychwanegwyd yr ymatebion i bob cwestiwn yn y canllaw trafod at fframwaith dadansoddi Excel. Cafodd pob cwestiwn ei ddadansoddi ac ychwanegwyd canfyddiadau perthnasol o dan y penawdau priodol drwyddo draw. Fe wnaeth y dull codio thematig o fewn fframwaith wedi'i arwain gan gwestiynau alluogi cymharu'r atebion i'r cwestiynau ymchwil penodol yn uniongyrchol a helpu i amlygu enghreifftiau.

Cafodd yr adroddiad drafft ei adolygu'n fewnol gan gymheiriaid cyn ei gyflwyno i'r cleient.

## 2.2. Ystyriaethau methodolegol

Er y mabwysiadwyd dulliau cymysg ar gyfer y gwaith ymchwil hwn, a oedd yn cyfuno cyfweliadau ansoddol lled-strwythuredig â chiplun meintiol strwythuredig gan awdurdodau lleol, mae'n dibynnu'n bennaf ar ymatebion ansoddol a ddarparwyd yn ystod y cyfweliadau ac yn y dystiolaeth ysgrifenedig.

Lle bynnag y bo modd, caiff hawliadau eu mesur yn ôl nifer yr awdurdodau a nifer yr ysgolion annibynnol a roddodd dystiolaeth.

Roedd cynnwys cymysgedd o gyfranogwyr yn ddefnyddiol er mwyn cael mewnwelediad staff strategol a gweithredol sy'n goruchwylio PCA mewn awdurdodau lleol, yn ogystal â staff sy'n ymwneud â data a systemau gwybodaeth reoli sy'n gyfrifol am weithgareddau paru data.

Daeth yn amlwg yn ystod cyfnod cychwynnol yr astudiaeth mai dim ond un sefydliad iechyd, sef PCGC, a oedd wedi bod yn cymryd rhan weithredol yn y cynllun peilot. O ganlyniad, cytunwyd na fyddai llawer o werth mewn ymgysylltu â byrddau iechyd lleol yn unigol.

Cytunwyd hefyd y byddai'n ddefnyddiol casglu barn nifer bach o ysgolion annibynnol a gymerodd ran yn y cynllun peilot. Er nad oedd hyn wedi'i nodi fel gofyniad yn y fanyleb, ailddyrannwyd adnoddau er mwyn ei ymgorffori yn yr astudiaeth.

## 2.3. Strwythur yr adroddiad hwn

Mae gweddill yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro fel a ganlyn:

- ym Mhennod 3, amlinellir y cyd-destun deddfwriaethol a'r cyd-destun polisi a rhoddir trosolwg o'r prosiect peilot. Mae'r bennod hon hefyd yn amlinellu model rhesymeg y ddamcaniaeth newid ar gyfer y cynllun peilot cronfa ddata plant sy'n colli addysg
- ym Mhennod 4, amlinellir y trefniadau sydd ar waith ar draws awdurdodau lleol peilot i nodi PCA, olrhain cyfnodau pontio disgyblion a chadw cronfeydd data PCA
- ym Mhennod 5 ystyrir y broses o drosglwyddo data'r GIG ac ysgolion annibynnol, a'r camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol i ddilysu a pharu'r data hynny
- ym Mhennod 6 amlinellir y camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol i nodi plant a allai fod yn colli addysg ac ymgysylltu â nhw drwy'r prosiect peilot
- ym Mhennod 7, ystyrir y gwelliannau neu'r diwygiadau y gellid eu gwneud i'r rheoliadau, ac adborth ehangach am y dyfodol
- ym Mhennod 8, amlinellir ein casgliadau a'n hargymhellion ar gyfer y dyfodol.

# 3. Y cefndir a'r ddamcaniaeth newid

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r cyd-destun deddfwriaethol a'r cyd-destun polisi a fu'n sail i ddatblygu'r cynllun peilot cronfa ddata Plant sy'n Colli Addysg (PCA). Mae hefyd yn rhoi trosolwg o'r cynnydd a wnaed o ran sefydlu cynlluniau peilot cronfa ddata PCA ar draws 7 ardal awdurdod lleol. Yn olaf, mae'n amlinellu model rhesymeg y ddamcaniaeth newid ar gyfer y cynllun peilot, sy'n cyfleu'r mewnbynnau, y gweithgareddau, yr allbynnau a'r canlyniadau a ddisgwylir o'r ymyrraeth.

## 3.1. Y cyd-destun deddfwriaethol a'r cyd-destun polisi

Mae addysg yn hawl sylfaenol i bob plentyn ac mae'n hanfodol i ddatblygiad plant, eu llesiant a'u cyfleoedd yn y dyfodol. Ategir hyn gan egwyddorion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) a fabwysiadwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig ym 1989 ac a gadarnhawyd gan y DU ym 1991. Mae Erthygl 28 o'r CCUHP yn datgan hawl pob plentyn i dderbyn addysg ac mae Erthygl 29 yn datgan y dylai addysg ddatblygu personoliaeth a thalentau pob plentyn i'r eithaf.

Mae gan awdurdodau lleol a rhieni ddyletswydd statudol i sicrhau bod plant yn derbyn addysg. Noda Adran 7 o Ddeddf Addysg 1996 ei bod yn ofynnol yn ôl y gyfraith i rieni sicrhau bod eu plentyn yn derbyn 'addysg amser llawn effeithlon', sy'n addas i 'oedran, gallu a doniau' y plentyn.

Mae Adran 436A o Ddeddf Addysg 1996 yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i adnabod pob plentyn o oedran ysgol statudol sy'n byw yn eu hardaloedd nad yw wedi'i gofrestru mewn ysgol ac i weithredu os yw'n ymddangos nad yw'r plant hynny'n cael addas addysg ar ffurf addysg heblaw yn yr ysgol. Mae Deddf Addysg (Cymru) 2014 yn amlinellu cyfrifoldebau awdurdodau lleol a rhieni mewn perthynas ag addysg plant.

Ers ei sefydlu, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yn derbyn addysg addas ac atgyfnerthwyd yr ymrwymiad hwn yn y ddogfen Cymru: Cenhadaeth ein Cenedl. Pwysleisiwyd yr ymrwymiad ymhellach yn Cenhadaeth ein cenedl: safonau a dyheadau uchel i bawb sy'n anelu at gyflawni safonau a dyheadau uchel i bawb 'drwy gefnogi pob dysgwr'. Mae'r egwyddorion a nodir yn y ddogfen Cenhadaeth ein Cenedl yn berthnasol i bob plentyn, gan gynnwys y rhai sy'n cael eu haddysgu yn y cartref.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn hyrwyddo Cymru sy'n fwy cyfartal drwy gefnogi system addysg gynhwysol a chyfartal lle mae pob plentyn yn cael ei gefnogi i oresgyn rhwystrau i ddysgu a chyfranogi.

### 3.1.1. Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg

Diffinnir PCA fel y plant hynny o oedran ysgol gorfodol nad ydynt ar gofrestr ysgol, nad ydynt yn derbyn addysg addas ar ffurf addysg heblaw yn yr ysgol, neu lle mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu nad yw unrhyw addysg a ddarperir gan riant sy'n addysgu yn y cartref

yn addas nac yn effeithlon, neu blant nad ydynt wedi cael unrhyw ddarpariaeth addysgol am gyfnod sylweddol o amser, sydd fel arfer yn 4 wythnos neu fwy. [troednodyn 2]

Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau statudol yn 2010, a chyhoeddwyd fersiwn ddiwygiedig yn 2017 ar gyfer awdurdodau lleol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg. Mae'r canllawiau'n nodi ei bod yn 'hollbwysig...fod gan awdurdodau lleol fesurau cadarn i nodi'n gyflym y ffaith bod plentyn neu berson ifanc yn colli addysg ac wedyn i ddilyn systemau olrhain ac ymchwilio effeithiol i ddod o hyd iddo'.

Mae'r canllawiau statudol yn nodi cyfrifoldebau awdurdodau lleol mewn perthynas â'u dyletswydd i nodi plant a phobl ifanc yn eu hardal nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol ac nad ydynt yn derbyn addysg addas. Mae'r canllawiau'n nodi y dylai awdurdodau lleol:

- enwebu unigolyn/unigolion a enwyd i roi gwybod iddo pan nodir nad yw plentyn neu berson ifanc yn cael addysg addas ac a fydd yn sicrhau eu bod yn ailgysylltu â'r addysg cyn gynted â phosibl
- nodi grwpiau ac unigolion sy'n agored i niwed ac sy'n cael eu hadnabod fel rhai sy'n wynebu mwy o risg, gan sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol sydd wedi'i deilwra
- cael polisïau ysgrifenedig ar gyfer asiantaethau partner fel eu bod yn gwybod yn union sut y gallant hysbysu'r awdurdod lleol am blant a phobl ifanc sydd ar goll neu sydd mewn perygl o fynd ar goll.

At hynny, mae'r canllawiau'n nodi mesurau ychwanegol y disgwylir i awdurdodau lleol eu cymryd i nodi a dod o hyd i blant a phobl ifanc sydd ar goll. Mae'r rhain yn cynnwys cyfrifoldebau gwasanaethau derbyn i ysgolion, cyfrifoldebau ysgolion wrth i blant bontio o'r cynradd i'r uwchradd, gweithio mewn partneriaeth â'r heddlu i gynnal archwiliadau triwantiaeth, a chyfrifoldebau mewn perthynas ag addysg ddewisol yn y cartref.

Mae pecyn cymorth cynhwysfawr wedi'i gynnwys fel atodiad i'r canllawiau i roi cyngor ac arweiniad ymarferol i awdurdodau lleol i'w cynorthwyo i gyflawni eu dyletswydd. Gall awdurdodau lleol ac ysgolion fabwysiadu'r ffurflenni fel rhan o'u polisïau a'u gweithdrefnau ar gyfer plant sy'n colli addysg. Un o'r dulliau hyn yw holiadur hunanasesu ar gyfer awdurdodau lleol (Atodiad 3) i nodi pa mor dda y maent yn cyflawni'r ddyletswydd i nodi plant a phobl ifanc sy'n colli addysg yn eu hardal nhw.

## 3.2. Rheoliadau cronfa ddata plant sy'n colli addysg

Ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar reoliadau drafft ar ddechrau 2020 a oedd yn cynnig cyflwyno gofyniad i bob awdurdod lleol sefydlu cronfa ddata o bob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn ei ardal, y gellid ei llenwi â gwybodaeth a dderbynnir gan ysgolion annibynnol a byrddau iechyd lleol. Canfu'r adborth a gasglwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori nad oedd llawer o gefnogaeth i sefydlu cronfeydd data awdurdodau lleol o'r holl blant oedran ysgol

[2] Llywodraeth Cymru (2017) Canllawiau statudol i helpu i atal plant a phobl ifanc rhag colli addysg Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-09/canllawiau-statudol-helpu-atal-plant-phobl-ifanc-rhag-colli-addysg.pdf tud.5

gorfodol gan na fyddai hyn o reidrwydd yn helpu i nodi plant nad ydynt yn hysbys i awdurdodau lleol neu sy'n colli addysg yn eu hardal.

Yng ngoleuni'r adborth a gasglwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori, diwygiodd Llywodraeth Cymru ei chynigion ar gyfer y rheoliadau, a chynigiodd, drwy Reoliadau Deddf Plant 2004 Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg (Cymru) y dylai awdurdodau lleol sefydlu cronfa ddata o blant a allai fod yn colli addysg, yn hytrach na chronfa ddata o'r holl blant o oedran ysgol gorfodol.

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar ddechrau 2024 i gasglu barn ar Reoliadau drafft Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Cymru).

Roedd y rheoliadau'n ei gwneud yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol rannu gwybodaeth anghlinigol am blant sydd fel arfer yn preswylio yn eu hardal gyda'r awdurdod lleol perthnasol yn flynyddol. Byddai hyn yn galluogi awdurdodau lleol i groesgyfeirio'r data hyn â'r setiau data sydd gan awdurdodau lleol ar blant mewn ysgolion a gynhelir yn ogystal ag mewn ysgolion annibynnol, sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol (AHY) a'r dysgwyr hynny sy'n cael eu haddysgu yn y cartref lle mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu bod yr addysg yn addas.

Dim ond gwybodaeth sylfaenol am blant nad ydynt ar gofrestr ysgol, nad ydynt yn cael darpariaeth AHY, neu nad yw'n hysbys eu bod yn cael addysg addas yn y cartref y byddai'r gronfa ddata yn ei chynnwys. Mae'r rheoliadau drafft yr ymgynghorwyd arnynt hefyd yn cynnig y bydd y rheoliadau hyn yn cael eu peilota a'u gwerthuso ar draws nifer bach o ardaloedd awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, cyn ystyried eu cyflwyno ledled Cymru.

Datgelodd yr adborth a gasglwyd fel rhan o'r ymarfer ymgynghori wahaniaeth barn. Roedd mwyafrif y rhai a oedd yn addysgu yn y cartref neu grwpiau addysgu yn y cartref yn gwrthwynebu'n gryf y cysyniad o gyflwyno unrhyw ddeddfwriaeth a mynegwyd pryderon ynghylch eu cyfreithlondeb a'u moesoldeb. Fodd bynnag, roedd mwyafrif yr awdurdodau lleol a'r sefydliadau sydd â chyfrifoldeb dros blant a hawliau plant yn cefnogi'r cynnig i sefydlu cronfa ddata o blant a allai fod yn colli addysg gan eu bod yn credu y byddai hyn yn helpu awdurdodau lleol i nodi plant nad ydynt yn hysbys iddynt ar hyn o bryd a'u cynorthwyo gyda'u tasg o gyflawni eu swyddogaethau addysg fel y nodir yn adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Roedd rhanddeiliaid o sefydliadau iechyd hefyd yn gefnogol i'r cynigion yn gyffredinol gan awgrymu y gellid rhannu'r wybodaeth am blant drwy ddefnyddio ffynhonnell iechyd genedlaethol, fel Set Ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru (WDSD), yn hytrach na chan bob bwrdd iechyd lleol unigol.

Ym mis Medi 2024, gwnaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Lynne Neagle AS, ddatganiad ysgrifenedig i gadarnhau'r penderfyniad i fwrw ymlaen â'r cynlluniau yr ymgynghorwyd arnynt. Er mwyn pennu effeithiolrwydd y rheoliadau arfaethedig a nodi unrhyw broblemau ymarferol a allai godi, cyhoeddwyd y byddai trefniadau'r gronfa ddata yn cael eu peilota ar draws nifer bach o awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn gyntaf. Cyhoeddodd y datganiad hefyd y byddai gwerthusiad o'r cynllun peilot yn cael ei gomisiynu, a fyddai'n canolbwyntio ar effeithiolrwydd rheoliadau'r gronfa ddata o ran helpu awdurdodau lleol i nodi plant a allai fod yn colli addysg gydag unrhyw argymhellion ar gyfer newidiadau

neu fesurau ychwanegol i’w hystyried cyn eu cyflwyno’n llawn ledled Cymru. Yn ddiweddarach y mis hwnnw, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai'r cynllun peilot yn para am flwyddyn gan enwi'r awdurdodau lleol a fyddai'n cymryd rhan ynddo.

## 3.3. Trosolwg o'r cynnydd a wnaed

### 3.3.1. Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Peilota) (Cymru)

Daeth Adran 29 o Ddeddf Plant 2004 i rym ar Fawrth 10, 2025, drwy Orchymyn Deddf Plant 2004 (Cychwyn Rhif 10) (Cymru) 2025. Mae adran 29 yn darparu ar gyfer sefydlu a gweithredu cronfeydd data at ddibenion trefniadau o dan adran 25 neu 28 o Ddeddf Plant 2004 neu o dan adran 175 o Ddeddf Addysg 2002. Daeth Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Peilota) (Cymru) 2025 i rym ar 8 Ebrill 2025 gan barhau tan 8 Ebrill 2026.

Roedd y rheoliadau’n gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol a chontractwyr y Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol (GMC) i ddatgelu 3 darn o wybodaeth am blant sydd fel arfer yn byw yn ardaloedd y 7 awdurdod lleol a oedd yn rhan o'r cynllun peilot erbyn 20 Mai 2025, sef:

- enw'r plentyn
- cyfeiriad a chod post y plentyn a
- dyddiad geni'r plentyn.

Er bod y rheoliadau drafft yn nodi y byddai gwybodaeth am rywedd y plentyn yn cael ei rhannu ag awdurdodau lleol, dilewyd y maes data hwn o'r rheoliadau cyhoeddedig, gan nad oedd consenswS rhwng awdurdodau lleol a byrddau iechyd ynghylch ai gwybodaeth am ryw neu rywedd y plentyn oedd y wybodaeth fwyaf priodol i'w rhannu.

Roedd y rheoliadau hefyd yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau lleol a oedd yn rhan o'r cynllun peilot gymryd camau rhesymol i gywiro unrhyw wallau a chwblhau'r cofnod sydd ganddynt ar gyfer y plant hyn. Yn yr achosion hynny lle mae plentyn y mae ei enw wedi'i gynnwys yn y gronfa ddata PCA wedi symud i ardal awdurdod lleol arall, rhaid i'r awdurdod lleol hysbysu'r awdurdod lleol sy'n derbyn y plentyn am yr achos hwn. Rhaid i'r awdurdod lleol hefyd ddileu cofnod PCA os yw'n hysbys bod plentyn wedi gadael ei ardal, wedi marw, nad yw bellach o oedran ysgol gorfodol, os daw plentyn yn ddisgybl cofrestredig mewn ysgol neu os ystyrir bod yr addysg a ddarperir gan y rhiant bellach yn addas ac yn effeithlon.

Rhestrodd y rheoliadau'r 7 ardal awdurdod peilot (Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Sir Caerdydd, Cyngor Sir Caerfyrddin, Cyngor Sir Fynwy, Cyngor Sir Gwynedd, Cyngor Sir Powys a Chyngor Sir Ynys Môn). Fe wnaethant hefyd nodi bod yn rhaid i staff sy'n cael mynediad at gronfa ddata PCA fod yn cyflawni swyddogaethau sy'n ymwneud â derbyniadau i ysgolion, gwasanaethau lles addysg, dyletswyddau sy'n ymwneud â lles plant, a dyletswyddau sy'n ymwneud ag anghenion dysgu ychwanegol. At hynny, roedd y rheoliadau'n rhestru'r wybodaeth y mae'n rhaid i'r awdurdodau lleol peilot ei chynnwys yn y gronfa ddata PCA:

- enw'r plentyn (gan gynnwys unrhyw enw blaenorol)
- cyfeiriad y plentyn (neu ei gyfeiriad hysbys diwethaf) gan gynnwys cod post
- dyddiad geni'r plentyn
- enw, cyfeiriad a chod post, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost holl rieni'r plentyn
- enw a chyfeiriad y person sy'n darparu'r cyfan neu ran o'r addysg
- unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod gan y plentyn ac unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gelwir amdani.

### 3.3.2. Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Peilota) (Cymru) 2025

Roedd y rheoliadau hyn, a ddaeth i rym ar 9 Ebrill 2025 ac y peidiodd eu heffaith ar 20 Mai 2025, yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol ddatgelu gwybodaeth am blant cofrestredig i'r awdurdod lleol perthnasol a oedd yn rhan o beilota'r gronfa ddata PCA. Roedd yn ofynnol i ysgolion annibynnol rannu'r un 3 darn o ddata gyda'r awdurdod lleol perthnasol ag yr oedd yn ofynnol i fyrddau iechyd lleol a'r GMC eu darparu (h.y. enw'r plentyn, ei gyfeiriad gan gynnwys y cod post, a dyddiad geni). Roedd yn ofynnol iddynt ddatgelu'r wybodaeth erbyn 20 Mai 2025.

## 3.4. Damcaniaeth newid

Mae model rhesymeg y ddamcaniaeth newid ar gyfer y cynllun peilot cronfa ddata PCA i'w gweld yn Ffigur 3.1, ac mae'n cyfleu'r mewnbynnau, y gweithgareddau a'r allbynnau gwirioneddol y disgwylir i'r cynllun peilot eu cyflawni, ynghyd â'r canlyniadau y gellir eu disgwyl o ganlyniad i hynny.

## Ffigur 3.1: Damcaniaeth newid ar gyfer y prosiect peilot cronfa ddata PCA

### Mewnbynnau

- Deddfu Adran 29 o Ddeddf Plant 2004 i sefydlu a gweithredu cronfeydd data PCA
- Rheoliadau Deddf Plant 2004 (Cronfa Ddata Plant sy'n Colli Addysg) (Peilota) (Cymru)
- Rheoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Peilota) (Cymru) 2025
- Y sector iechyd a'r awdurdod lleol; ac ysgolion annibynnol ac ALlau yn gweithio mewn partneriaethau

### Gweithgareddau

- 7 ALl yn rhan o gynllun peilot blwyddyn o hyd
- PCGC yn darparu'r wybodaeth ofynnol i awdurdodau lleol peilot ym mis Ebrill 2025
- Ysgolion annibynnol yn rhannu data gydag ALlau peilot rhwng 8 Ebrill a 20 Mai 2025
- ALlau yn rhoi trefniadau llywodraethu a phrosesu data priodol ar waith i reoli data
- ALlau yn croesgyfeirio data PCGC ac ysgolion annibynnol yn erbyn eu systemau data
- ALlau yn dod i wybod pwy yw'r plant yn eu hardal nad oeddent yn hysbys iddynt o'r blaen; ac nad ydynt wedi cofrestru mewn ysgol ac nad ydynt yn cael addysg addas
- ALlau yn ymgysylltu â'r garfan newydd hon o PCA nad oedd yn hysbys iddynt o'r blaen neu'n ailymgysylltu â dysgwyr sy'n cael eu haddysg yn y cartref neu yr ystyrir eu bod yn PCA gan nad yw'r addysg wedi'i chofnodi fel un addas neu effeithlon.

### Allbynnau

- ALlau yn nodi PCA nad oeddent yn hysbys iddynt o'r blaen
- ALlau yn cael gwell gwybodaeth am nifer y PCA yn eu hardal ac yn fwy hyderus eu bod yn ymwybodol o bob plentyn o oedran ysgol orfodol yn eu hawdurdod
- ALlau yn cadw cronfa ddata o PCA yn eu hardal ac yn ei diweddaru wrth i wybodaeth am y plant a'r bobl ifanc hyn gael ei chasglu
- Mwy o ddysgwyr wedi'u nodi a allai fod ag anghenion dysgu ychwanegol ac y mae angen cynllun datblygu unigol arnynt

### Deilliannau tymor byr

- ALlau yn gallu cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth a nodir yn Neddf Plant 2004
- PCA wedi'u nodi ac addysg addas yn cael ei darparu iddynt. Gallai hyn gynnwys penderfynu a oes unrhyw ADY
- ALlau yn ymwybodol o fwy o blant a phobl ifanc y bydd angen mynediad at ddarpariaeth briodol ac addas arnynt
- Mwy o blant a phobl ifanc yn ailymgysylltu ag addysg addas
- Gellir mynd i'r afael ag unrhyw bryderon ynghylch diogelu a lles
- ALlau yn gallu gwneud trefniadau priodol o dan Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 i ddiogelu a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc

### Deilliannau hirdymor

- Mwy o blant a phobl ifanc yn cael mynediad at gyfleoedd dysgu priodol ac effeithiol
- Mwy o blant a phobl ifanc yn cael cyfleoedd i gyflawni eu potensial yn llawn
- Lleihad yn nifer y plant a'r bobl ifanc nad ydynt yn rhan o'r system addysg neu nad ydynt yn hysbys iddi
- Ymdrin yn gynharach â phryderon diogelu a lles

### Y cyd-destun

- Mae gan ALlau ddyletswydd statudol i sicrhau bod plant yn derbyn addysg
- Mae gan ALlau ddyletswydd hefyd i ganfod pwy yw'r plant nad ydynt wedi'u cofrestru mewn ysgol neu nad ydynt yn derbyn addysg addas.
- Nid oes gan ALlau fynediad at yr holl wybodaeth sydd ar gael sy'n caniatáu iddynt nodi'r holl PCA yn eu hardal
- Tybir bod data GIG Cymru a data ysgolion annibynnol yn darparu cronfa ddata fwy cynhwysfawr o blant sy'n byw mewn unrhyw ALl

### Rhagdybiaethau a Ffactorau Allanol

- Y polisïau a'r prosesau PCA sydd ar waith ar draws ALlau peilot
- Capasiti a sgiliau ALlau i ymgymryd â gwaith paru data
- Cydnawsedd data GIG Cymru a data'r ALl, e.e. efallai bod rhai plant a phobl ifanc yn nata GIG Cymru yn mynychu ysgolion sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r ALl
- Cywirdeb a chyfoesedd data GIG Cymru ac ysgolion annibynnol
- Rhwystrau sy'n wynebu ALlau i gefnogi PCA i ddychwelyd i addysg

# 4. Trefniadau awdurdodau lleol mewn perthynas â PCA

Mae'r bennod hon yn amlinellu'r trefniadau sydd ar waith ar draws yr awdurdodau lleol peilot i nodi PCA, olrhain cyfnodau pontio disgyblion a chynnal cronfeydd data PCA

## 4.1. Dull o nodi PCA

Roedd yr awdurdodau lleol peilot yn amrywio o ran pa mor sefydledig yr oedd eu trefniadau presennol ar gyfer nodi a monitro plant sy'n colli addysg. Roedd tri awdurdod o'r farn eu bod mewn sefyllfa gref i gyflawni eu dyletswydd statudol, gyda systemau aeddfed, strwythurau atebolrwydd clir, a rhwydweithiau amlasiantaethol sefydledig. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, disgrifiodd yr awdurdodau lleol eraill eu hunain fel rhai sydd ar gamau datblygu cynharach, a bod eu polisïau a'u prosesau yn dal i gael eu ffurfioli neu bod ganddynt systemau mewnol cadarn ond yn wynebu rhai cyfyngiadau oherwydd ansawdd ac amseroldeb data allanol.

Mae'r adborth gan awdurdodau lleol hefyd yn tynnu sylw at ba mor bwysig yw cyd-destunau lleol. Yn aml, roedd awdurdodau trefol yn dweud eu bod yn wynebu achosion cymhleth o PCA sy'n gysylltiedig â diogelu (gan gynnwys priodas dan orfod ac ecsbloetio), tra bod ardaloedd mwy gwledig yn tynnu sylw at yr heriau gweithredol sy'n gysylltiedig â gweithio ar draws cymunedau gwasgaredig.

### 4.1.1. Rheolaeth ac arweinyddiaeth strategol

Dywedodd 4 awdurdod lleol bod ganddynt arweinyddiaeth strategol cryf lle mae PCA yn rhan o fframweithiau llywodraethu clir a lle mae goruchwyliaeth gan uwch swyddogion yn sicrhau atebolrwydd. I'r gwrthwyneb, yn yr awdurdodau lleol eraill adroddwyd bod trefniadau arweinyddiaeth a dulliau cyson o ymdrin â chyfnodau pontio disgyblion ac ymgysylltu â phartneriaid yn aeddfedu adeg y cynllun peilot.

### 4.1.2. Rhwydweithiau a phwyntiau cyswllt

Roedd awdurdodau lleol â rhwydweithiau rhyngasiantaethol sefydledig yn tueddu i ddweud bod ganddynt fwy o hyder yn eu systemau PCA. Disgrifiodd tri rwydweithiau cryf ac aeddfed gydag ysgolion, gwasanaethau iechyd, asiantaethau ffiniau ac awdurdodau cyfagos, a bod cyfarfodydd amlasiantaeth rheolaidd yn cael eu cynnal i adolygu achosion o PCA. Nododd ardaloedd eraill fod hyn yn rhywbeth y mae angen ei ddatblygu ac nad oedd unrhyw fecanweithiau adrodd systematig ar waith ar draws yr awdurdod.

### 4.1.3. Systemau gwybodaeth

Roedd systemau data sy'n sail i adnabod PCA yn faes arall lle yr oedd y sefyllfa bresennol yn wahanol o un ardal beilot i'r llall. Roedd gan dri awdurdod lleol y fantais o blatfformau data a systemau olrhain canolog. Disgrifiodd awdurdodau lleol eraill heriau'n gysylltiedig â llif a chyflawnrwydd data a bod angen tynhau trefniadau monitro presenoldeb a gwella amseroldeb derbyn data allanol gan bartneriaid (megis partneriaid iechyd a thimau

cyfiawnder ieuenctid sydd fel arfer ar y rheng flaen ac yn dod i glywed am blant nad ydynt yn yr ysgol) fel y gellir hysbysu awdurdodau lleol am blant a allai fod yn colli addysg.

### 4.1.4. Sicrhau darpariaeth addysg

Roedd sawl awdurdod o'r farn bod ganddo ddulliau da o sicrhau addysg ar gyfer y rhai y nodwyd eu bod yn PCA. Roedd swyddogion PCA yn cydgysylltu'n agos â thimau derbyn, gan sicrhau atgyfeiriadau cyflym, ymweliadau cartref lle bo angen, a lleoli plentyn yn brydlon ar ôl ei ddarganfod.

Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, cydnabu awdurdodau lleol eraill, er bod eu prosesau o nodi PCA yn gwella, fod llwybrau ffurfiol i sicrhau darpariaeth ar gyfer PCA yn cael eu defnyddio'n llai cyson. Mae'r cynllun peilot wedi annog y meysydd hyn i ystyried sut y mae gwaith PCA yn cyd-fynd â phrosesau derbyn a mynediad teg.

### 4.1.5. Systemau effeithiol ar gyfer monitro disgyblion

Gwelwyd esiamplau gorau o ran arferion monitro systematig a rhagweithiol mewn dau awdurdod lleol peilot, gan alluogi mynd ar drywydd achosion cymhleth (megis y rhai sy'n ymwneud â diogelu neu symud ar draws ffiniau) yn brydlon.

Roedd awdurdodau lleol eraill yn olrhain achosion o PCA unigol drwy gyfarfodydd adolygu amlasiantaeth, neu daenlenni gweithredol ar gyfer monitro PCA. Nododd dwy ardal beilot fod diffyg gwiriadau systematig o drefniadau pontio yn wendid mawr ac ystyriwyd bod gwella'r systemau monitro hyn yn flaenoriaeth iddynt.

Ar gyfer yr holl ardaloedd peilot, roedd y broses wedi nodi cyfleoedd ac wedi ysgogi camau gweithredu i gryfhau'r gweithdrefnau presennol, gwella effeithlonrwydd a chau bylchau gan gynnwys:

- cryfhau'r rhyngwyneb rhwng y timau PCA ac Addysg Ddewisol yn y Cartref, maes a ddisgrifiwyd yn flaenorol fel "annelwig" lle y gallai plant gael eu hanwybyddu
- drafftio polisi PCA ffurfiol, wedi'i gymeradwyo gan Dîm Rheoli'r Gyfarwyddiaeth a'i ddosbarthu ar draws adrannau, a thrwy hynny godi ymwybyddiaeth sefydliadol o PCA
- datgelu absenoldeb mecanweithiau ffurfiol i bartneriaid fel ymwelwyr iechyd a gwasanaethau cyfiawnder ieuenctid dynnu sylw at achosion o PCA.

## 4.2. Olrhain trefniadau pontio a dadgofrestru

Ar draws y 7 ardal beilot, roedd cydnabyddiaeth eang bod olrhain trefniadau pontio disgyblion yn ganolog i atal plant rhag dod yn PCA. Adroddodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol fod ganddynt systemau ar gyfer monitro cyfnodau pontio allweddol, yn enwedig o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7, er bod cysondeb ac awtomeiddio prosesau yn amrywio'n sylweddol. Roedd gwiriadau ar gyfer monitro cyfnodau pontio cynharach (o'r feithrinfa i'r dosbarth derbyn) neu ar draws ffiniau yn fwy amrywiol ar draws yr ardaloedd peilot.

### 4.2.1. Olrhain trefniadau pontio o'r feithrinfa i'r dosbarth derbyn

Dywedodd pump o'r 7 awdurdod lleol peilot fod ganddynt ryw fath o broses ar gyfer olrhain trefniadau pontio disgyblion o'r feithrinfa i'r dosbarth derbyn, ond roedd y dulliau'n amrywio o ran pa mor soffistigedig oeddent ac o ran awtomeiddio.

Disgrifiodd dau awdurdod lleol arfer arbennig o gryf. Mewn un enghraifft, caiff trefniadau pontio'r blynyddoedd cynnar eu cydgysylltu gan swyddog pwrpasol ac mae'r tîm yn cadw rhestr *Rising Fives* i fonitro plant sy'n agosáu at oedran ysgol statudol, gan gynnwys y rhai a nodwyd fel plant sy'n agored i niwed drwy brosesau fel Operation Encompass. Yn y llall, mae ceisiadau am le mewn dosbarth derbyn yn cael eu croeswirio yn erbyn cohortau disgyblion meithrin hysbys. Lle nad oes cais wedi'i gofnodi, mae'r tîm Derbyniadau yn ymchwilio ac yn cysylltu'n uniongyrchol â theuluoedd.

Mae tri awdurdod lleol arall yn gweithredu system debyg ond sy'n cael ei gwneud â llaw i raddau helaeth. Mewn un awdurdod lleol o'r fath, mae plant sy'n rhoi'r gorau i fynychu dosbarth meithrin yn gynnar yn cael eu cadw ar restr wylio nes eu bod yn cyrraedd oedran ysgol statudol, ac ar yr adeg honno mae'r tîm PCA yn gwirio gyda'r Adran Derbyniadau i gadarnhau a oes cais am ysgol wedi'i wneud. Mae achosion ble nad oes cyrchfan wedi'i chofnodi yn cael eu dyrannu i swyddogion fynd ar eu trywydd. Mewn awdurdod arall, mae'n ofynnol i ysgolion hysbysu'r awdurdod pan fydd plentyn yn gadael y gofrestr, ac mae swyddogion PCA yn cadarnhau bod gan y disgybl le mewn dosbarth derbyn. Caiff croeswiriadau eu cynnal rhwng rhestrau o ddisgyblion y disgwylir iddynt drosglwyddo a'r rhai a dderbynnir, ac ymchwilir yn brydlon i unrhyw anghysondebau. Yn y drydedd enghraifft, mae'r tîm Mynediad yn llunio rhestrau o blant nad ydynt wedi gwneud cais am le neu y gwyddys eu bod yn symud, ac mae Swyddogion Lles Addysg yn adolygu hyn ac yn mynd ar eu trywydd.

I'r gwrthwyneb, cydnabu'r ddau awdurdod lleol sy'n weddill nad oes ganddynt wiriadau arferol ar gyfer pontio o'r feithrinfa i'r dosbarth derbyn eto, gan nodi hyn fel bwlch mawr.

### 4.2.2. Olrhain trefniadau pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7

Y trefniadau pontio o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd oedd y cam a gafodd ei olrhain yn fwyaf cyson ar draws yr awdurdodau peilot gyda phum ardal beilot yn disgrifio prosesau manwl a thrylwyr sydd ganddynt ar waith ar hyn o bryd.

Dywedodd dau awdurdod lleol fod adroddiadau ar ddisgyblion sy'n gadael Blwyddyn 6 yn cael eu cynhyrchu'n rheolaidd gyda chyswllt dilynol â theuluoedd neu ysgolion i gadarnhau presenoldeb yn yr ysgolion uwchradd a nodwyd. Aethpwyd ar dywydd trosglwyddiadau i ysgolion annibynnol hefyd, ac ni thynnwyd enw unrhyw blentyn oddi ar y gofrestr nes y cafwyd cadarnhad o ddyddiad dechrau.

Caiff data eu rhannu ar draws timau mewn 3 awdurdod lleol peilot arall hefyd. Mewn un awdurdod, mae'r tîm data yn nodi achosion lle nad oes unrhyw gyrchfan wedi'i chofnodi ar ddechrau'r tymor yn awtomatig ac mae'r tîm PCA yn treulio pythefnos cyntaf y tymor yn gwirio lleoliadau, gan gynnwys gwiriadau yn erbyn ysgolion annibynnol a, lle y bo'n berthnasol, mewn awdurdodau cyfagos. Mae awdurdod lleol arall yn cynnal croeswiriadau

tebyg, gan gymharu rhestrau pontio disgwyliedig â data derbyniadau ysgolion. Ymchwilir i'r disgyblion nad yw eu henwau'n ymddangos ar y rhestrau, gyda chydweithwyr PCA, addysg ddewisol yn y cartref a diogelu yn cael eu dwyn ynghyd os oes angen. Mewn trydedd enghraifft, mae'r awdurdod lleol yn monitro'r trefniadau pontio rhwng Blwyddyn 6 a 7 drwy rannu data'n rheolaidd rhwng y gwasanaeth Cynhwysiant a'r Swyddogion Lles Addysg. Cynhelir cyfarfodydd clwstwr bob hanner tymor i adolygu disgyblion sy'n dechrau ac yn gadael, ac eir ar drywydd rhestrau o ddisgyblion heb leoedd wedi'u cadarnhau mewn ysgolion uwchradd.

Dywedodd dwy ardal beilot fod ganddynt brosesau ffurfiol cyfyngedig ar y cam hwn, ond mae swyddogion yn croesgyfeirio â'i gilydd i wirio ble mae plant wedi cael eu cofrestru.

### 4.2.3. Olrhain disgyblion sy'n cofrestru mewn ysgolion mewn awdurdodau lleol cyfagos

Mae trosglwyddiadau trawsffiniol yn parhau i fod yn un o'r mannau aneglur parhaus, gyda phob awdurdod peilot yn disgrifio anawsterau yn deillio o rannu data anghyson neu oedi rhwng awdurdodau lleol.

Mae awdurdodau lleol yn wynebu cymhlethdodau lle maent yn ffinio â sawl awdurdod lleol arall, a disgyblion sy'n symud yn aml i'r ardaloedd cyfagos hynny ac ohonynt. Er bod eu system rheoli data yn eu hysbysu pan nad yw plentyn sy'n byw yn eu hawdurdod lleol ar gofrestr leol, ni all gadarnhau'n awtomatig bod y plentyn wedi'i gofrestru yn rhywle arall. Mae angen cynnal gwiriadau â llaw a chyfathrebu rhwng awdurdodau, ac mae oedi yn gyffredin. Roeddent hefyd yn cofio achosion lle roedd awdurdod arall wedi cysylltu â nhw ynglŷn â disgybl a oedd eisoes wedi mynychu eu hysgolion ers ychydig flynyddoedd, gan ddangos anghysondeb o ran ymarfer cenedlaethol.

Adroddodd un awdurdod lleol iddo gael mwy o lwyddiant na'r mwyafrif o ran gwirio cyrchfannau trawsffiniol, gyda chymorth gan rwydweithiau sefydledig a dyfalbarhad wrth gysylltu ag awdurdodau ac ysgolion eraill yn uniongyrchol. Fodd bynnag, nododd swyddogion wendid strwythurol hefyd: nid yw'r rheoliadau ynghylch rheoli gwybodaeth ar gyfer ysgolion yn mynnu y dylid cwblhau gwybodaeth am gyrchfannau, a gall ysgolion ddefnyddio Systemau Gwybodaeth Reoli gan wahanol gyflenwyr (e.e. ESS neu Arbor), sy'n golygu y gall ysgolion ddewis yr opsiwn "Arall" a dim mwy pan fydd disgyblion yn gadael. Dadleuwyd y gellid lliniaru hyn drwy newid y polisi cenedlaethol.

Tynnodd awdurdod lleol arall sylw at yr un broblem ond dywedodd, er bod ganddo drefniadau olrhain mewnol cryf, nad oedd ALlau eraill bob amser yn rhannu gwybodaeth am blant a oedd yn symud, gan greu bylchau na ellir eu hosgoi.

### 4.2.4. Atal dadgofrestru amhriodol

Mae atal dadgofrestru amhriodol, lle mae ysgol yn darbwyllo rhiant i ddadgofrestru ei blentyn oherwydd problem, yn faes sy'n cael sylw cynyddol a disgrifiodd yr holl awdurdodau lleol a oedd yn cymryd rhan yn y cynllun peilot eu bod bellach yn gweithredu polisïau sy'n gwahardd ysgolion rhag dadgofrestru disgyblion heb awdurdodiad penodol gan yr awdurdod lleol.

Gwelwyd y model cliriaf o atal dadgofrestru systematig mewn awdurdod lleol penodol lle mae ysgolion yn cael cyfarwyddiadau penodol i beidio â thynnu enwau disgyblion oddi ar y gofrestr nes bod cyrchfan wedi'i chadarnhau. Caiff ysgolion eu hatgoffa'n rheolaidd o'u rhwymedigaethau, ac mae Swyddogion Lles Addysg sy'n gweithio mewn ysgolion yn herio unrhyw achosion o ddadgofrestru cynamserol ac yn atgyfnerthu'r angen i gydymffurfio. Mae atgyfeiriadau PCA yn parhau i fod ar agor nes bod cadarnhad o ddyddiad dechrau'n cael ei dderbyn naill ai gan ysgol o fewn ei hawdurdod ei hun, neu gan ysgol o fewn awdurdod arall.

Mae awdurdod lleol arall wedi mabwysiadu trefn debyg, gan ddefnyddio adroddiadau misol i nodi achosion posibl o ddadgofrestru (h.y. lle mae'n ymddangos nad y teulu a wnaeth y penderfyniad) a mynd ar drywydd hynny'n uniongyrchol gydag ysgolion a theuluoedd. Mae swyddogion yn cynnal gwiriadau treth gyngor a threfniadau teithio lle bo angen, gan sicrhau bod y rhai y mae eu henwau'n cael eu tynnu oddi ar gofrestrau yn adlewyrchu symudiadau dilys yn hytrach nag achosion heb eu cadarnhau.

Dangosodd yr awdurdodau lleol peilot eraill ymrwymiad ond roedd ganddynt brotocolau llai ffurfiol. Mae tri awdurdod lleol yn dibynnu ar dimau PCA a staff Derbyniadau i sylwi ar anghysondebau a mynd ar drywydd y rheini â llaw. Ystyriwyd bod y systemau hyn yn gweithio'n effeithiol mewn ar raddfa fach ond eu bod yn dibynnu gryn dipyn ar ba mor effro yw swyddogion unigol.

### 4.2.5. Camau dilynol pan nad yw dysgwyr yn ymddangos ar gofrestr yn ôl y disgwyl

Disgrifiodd yr awdurdodau peilot gyfuniad o wiriadau data awtomataidd a chamau dilynol ar ffurf ymyrraeth uniongyrchol y maent yn eu cymryd, pan ddaw'n amlwg nad yw dysgwr wedi ymddangos ar y gofrestr yn ôl y disgwyl ar gyfnodau pontio allweddol neu ar ôl gadael yr ysgol. Mae pob dull a ddisgrifiwyd wedi'i amlinellu isod:

- mewn un awdurdod lleol, rhaid i ysgolion lenwi ffurflen ymadael electronig pryd bynnag y bydd plentyn yn gadael y gofrestr, ac mae hon yn cael ei hanfon at dîm System Gwybodaeth Reoli yr awdurdod lleol a swyddogion PCA i'w hadolygu. Mae'r awdurdod lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gadarnhau bod disgyblion sydd wedi'u gwahardd wedi cyrraedd eu lleoliad newydd, a bod panel gwaharddiadau canolog wedi cael ei hysbysu am bob gwaharddiad parhaol. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn defnyddio baneri a gynhyrchir gan y System Gwybodaeth Reoli i nodi disgyblion coll ar ddechrau'r tymor. Mae'r rhain yn cael eu dyrannu i'r tîm PCA i fynd ar eu trywydd. Mae'r broses yn arbennig o ddwys yn ystod wythnosau cyntaf y flwyddyn academaidd
- mae awdurdod lleol arall yn dilyn proses debyg o ran strwythur. Mae'n ofynnol i ysgolion hysbysu'r awdurdod lleol pan gaiff plentyn ei ddadgofrestru, ac ar ôl hynny bydd y swyddog PCA yn croesgyfeirio rhestrau pontio disgwyliedig â chofrestriadau gwirioneddol. Lle nad oes cyrchfan wedi'i chadarnhau, trafodir achosion mewn cyfarfodydd amlasiantaeth sy'n cynnwys lles addysg, diogelu a gofal cymdeithasol

- mae trydydd awdurdod lleol peilot yn gweithredu model systematig ond symlach tebyg. Pan fydd ysgolion yn amau bod disgybl ar goll, maent yn cwblhau ffurflen atgyfeirio, gan sbarduno gwiriadau gan yr awdurdod lleol.
- mewn dau awdurdod lleol mae swyddogion lles yn cynnal gwiriadau, yn cysylltu ag awdurdodau eraill, ac, os oes angen, yn ymweld â chartrefi i olrhain teuluoedd neu i gysylltu ag asiantaethau sydd eisoes yn cefnogi'r teulu. Mae'r plentyn yn aros ar y gronfa ddata PCA nes y ceir cadarnhad o'r gyrchfan
- mewn awdurdod lleol arall, mae'n ofynnol i ysgolion hysbysu'r swyddog PCA ar unwaith pan fydd disgybl yn absennol heb esboniad, pan nad oes modd cysylltu â'r rhieni, neu pan na fydd symudiad wedi'i gynllunio yn arwain at gofrestriad yn rhywle arall. Ochr yn ochr â hyn, mae'r tîm data yn llunio adroddiadau rheolaidd o'u system rheoli data sy'n nodi unrhyw blentyn preswyl o oedran ysgol statudol nad oes ganddo gofnod ysgol gweithredol. Mae'r swyddog PCA yn gwirio'r rhestrau hyn â llaw, gan gadarnhau pob achos. Ar ôl i achos o PCA gael ei nodi, mae swyddogion yn cadarnhau amgylchiadau'r plentyn ac mae achosion yn cael eu huwchgyfeirio at gydweithwyr diogelu os bydd pryderon yn codi
- mae'r awdurdod lleol olaf sy'n rhan o'r cynllun peilot wedi mabwysiadu dull aml-haen tebyg. Mae'r awdurdod yn gwneud pob ymholiad rhesymol, gan ddefnyddio swyddogion lles addysg ac asiantaethau partner i wirio cyrchfannau. Lle na ellir olrhain plentyn ar unwaith, mae swyddogion yn gwirio gyda chronfeydd data eraill ac asiantaethau allanol. Unwaith eto, bydd yr achos yn aros ar agor nes bod y gyrchfan wedi'i gwirio a'r achos wedi'i ddatrys.

### 4.2.6. Protocolau ar gyfer olrhain disgyblion sy'n pontio i'r sector ysgolion annibynnol

Ar draws y 7 ardal beilot, roedd cytundeb cyffredinol bod trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth am symudiadau disgyblion i'r sector ysgolion annibynnol ac oddi yno yn gyfyngedig, yn anghyson, ac yn anffurfiol i raddau helaeth.

Er y gall y rhan fwyaf o awdurdodau lleol nodi pryd y mae plentyn yn gadael ysgol a gynhelir i fynd i leoliad annibynnol, ychydig sydd â phrotocolau ffurfiol i gyfnewid gwybodaeth yn barhaus ag ysgolion annibynnol. Lle mae gwybodaeth ar gael, mae awdurdodau lleol fel arfer yn cymryd camau rhagweithiol i gadarnhau bod plant sy'n gadael i fynd i'r sector annibynnol wedi derbyn lle yn y sector hwnnw mewn gwirionedd.

Ymhlith yr ardaloedd peilot, roedd y 2 awdurdod lleol a oedd â'r trefniadau cryfaf yn dibynnu gryn dipyn ar berthnasoedd lleol yn hytrach na chytundebau rhannu data ffurfiol.

Yn un o'r ardaloedd hyn, mae swyddogion yn cysylltu'n uniongyrchol ag ysgolion annibynnol i gadarnhau bod disgyblion wedi cyrraedd ac yn parhau i fynychu. Mae cysylltiadau sefydledig y cyngor yn golygu bod ysgolion yn rhannu diweddariadau amserol, gan alluogi'r awdurdod lleol i ymyrryd pan fydd pryderon ynghylch presenoldeb neu ddiogelu yn codi.

Mewn awdurdod lleol arall, mae proses cofnodi data gyson yn cael ei defnyddio pan fydd plant yn symud i'r sector annibynnol. Mae'n ofynnol i bob ysgol a gynhelir gwblhau'r maes cyrchfan yn y System Gwybodaeth Reoli pan fydd disgybl yn gadael, gan gofnodi enw'r

ddarpariaeth newydd. Caiff ysgolion gyfarwyddyd i wirio dyddiadau dechrau yn uniongyrchol gyda'r sefydliad annibynnol sy'n derbyn y plentyn, ac yna mae'r swyddog PCA yn cadarnhau gyda'r ysgol annibynnol honno bod y disgybl yn mynychu.

Roedd trefniadau llai ffurfiol ar waith mewn trydedd ardal beilot. Er bod rhai ysgolion annibynnol yn hysbysu'r awdurdod lleol pan fydd disgyblion yn gadael, nid yw eraill yn gwneud hynny. Mae'r swyddog PCA yn mynd ar drywydd gwybodaeth goll gan ysgolion annibynnol dros y ffôn a thrwy e-bost, ond mae'r cyfraddau ymateb yn amrywio.

Dywedodd y 4 ardal beilot sy'n weddill nad oes unrhyw brotocolau ffurfiol yn bodoli ar hyn o bryd. Er enghraifft, nododd swyddogion mewn un awdurdod lleol nad oes gofyn i ysgolion annibynnol roi gwybod am achosion o ddadgofrestru ac nad ydynt yn gwirio'n rheolaidd a yw disgyblion yn gwneud cynnydd o fewn y sector annibynnol (er enghraifft, o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7). Awgrymodd adborth gan yr awdurdodau lleol hyn nad oedd staff wedi'u hargyhoeddi bod ysgolion annibynnol yn deall y protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth.

Nododd dwy ardal beilot nad oeddent wedi derbyn unrhyw wybodaeth o gwbl gan ysgolion annibynnol cyn cymryd rhan yn y cynllun peilot. Nid oedd unrhyw weithdrefnau ffurfiol ar gyfer cyfathrebu parhaus nac ar gyfer monitro cynnydd ar ôl i ddisgybl gael ei gofrestru yn y sector annibynnol.

### 4.2.7. Adborth gan ysgolion annibynnol ar wybodaeth y gofynnir amdani wrth i ddisgyblion gofrestru

Pan ofynnwyd iddynt pa wybodaeth y mae'r awdurdod lleol yn gofyn amdani pan fydd disgybl yn cofrestru, nododd yr holl ysgolion annibynnol a gyfrannodd at yr adolygiad na ofynnir am unrhyw wybodaeth.

Dywed y rhan fwyaf o ysgolion hefyd nad yw awdurdodau lleol yn cysylltu â nhw i gadarnhau trefniadau pontio disgyblion mewn unrhyw gyfnod allweddol, gan gynnwys o'r dosbarth meithrin/derbyn i oedran ysgol statudol ac o Flwyddyn 6 i 7. Nodwyd hefyd fod hyn yn wir am bob awdurdod lleol yr oeddent yn delio ag ef, ac nad oedd unrhyw awdurdod lleol yng Nghymru yr oeddent yn delio ag ef yn gofyn am y data ar unrhyw gam.

Dywedodd un ysgol gynradd annibynnol fod ysgolion uwchradd lleol yn gofyn am ddata asesu 'diwedd CA2' pan fydd disgybl yn symud i'r uwchradd. Nodwyd hefyd fod ceisiadau i drosglwyddo gwybodaeth ddiogelu yn amrywio yn dibynnu ar yr ysgol a'r ardal, ond nid yw rhai ysgolion yn gofyn am y wybodaeth hon.

Lle mae disgyblion yn rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol annibynnol, dywedodd 3 ysgol annibynnol nad ydynt yn cael unrhyw gyswllt â'u hawdurdod lleol, gan ychwanegu nad oeddent yn credu bod unrhyw weithdrefnau y disgwylir iddynt eu dilyn o ran hysbysu awdurdodau lleol pan fydd plant yn rhoi'r gorau i fynychu eu hysgol.

Nododd un ysgol uwchradd annibynnol ei bod yn hysbysu'r awdurdod lleol yn ysgrifenedig ar unwaith pan fydd disgybl yn gadael y gofrestr, gan gynnwys y rheswm, y dyddiad ac unrhyw bryderon diogelu. Yna mae'n cau'r lleoliad pan gaiff gadarnhad gan yr awdurdod lleol bod y disgybl wedi'i ailgofrestru neu bod ei gyrchfan yn hysbys. Nododd ysgol

annibynnol arall na ofynnir am unrhyw wybodaeth ond ei bod yn hysbysu'r awdurdod lleol os oes ganddi bryderon ac yn mynd ar drywydd hynny eu hunain.

Nododd ysgol gynradd annibynnol arall, os yw teulu'n symud i ysgol, ardal neu wlad wahanol, y byddant yn casglu cymaint o wybodaeth â phosibl ond na ofynnir iddynt rannu unrhyw beth gyda'r awdurdod lleol. Soniodd y bydd yr awdurdod lleol yn cysylltu â'r ysgol o bryd i'w gilydd i ofyn a yw plentyn penodol wedi'i gofrestru gyda hi.

## 4.3. Cronfeydd data PCA awdurdodau lleol

Adroddodd pob un o'r 7 ardal beilot fod ganddynt ryw fath o gronfa ddata neu gofrestr PCA cyn y cynllun peilot. Fodd bynnag, mae'r systemau'n amrywio'n sylweddol o ran pa mor soffistigedig ydynt, eu cwmpas, ac i ba raddau y maent wedi'u hintegreiddio â phrosesau rheoli addysg ehangach.

Ar un pen i'r sbectrwm, mae rhai awdurdodau lleol yn gweithredu cronfeydd data amlwasanaeth sefydledig sydd wedi'u hintegreiddio â'u system gwybodaeth reoli ganolog, sy'n gallu olrhain achosion ar draws gwasanaethau addysg a thros amser. Ar y pen arall, mae gan rai awdurdodau lleol systemau lleol ar waith ond maent yn dibynnu mwy ar brosesau annibynnol neu brosesau sy'n cael eu cwblhau'n rhannol â llaw fel taenlen strwythuredig yn hytrach na chronfa ddata ffurfiol. Roedd amrywiad sylweddol hefyd o ran a yw'r systemau hyn yn cynnwys plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref sy'n addysg anaddas, y rhai sydd wedi diflannu ac nad yw eu cyrchfan yn hysbys, neu wybodaeth am y cyfnod o amser y mae plentyn wedi bod ar goll o addysg.

Mewn un awdurdod lleol, mae'r gronfa ddata PCA wedi'i hymgorffori'n llawn yn ei system ganolog. Caiff data o systemau rheoli ysgolion eu huwchlwytho'n awtomatig bob nos, gan ganiatáu diweddariadau bron mewn amser real. Mae'r tîm data yn gweithredu fel porthor ar gyfer ansawdd y data, gan sicrhau bod newidiadau'n cael eu gwirio cyn eu cofnodi yn y cofnod canolog.

Roedd gan awdurdod lleol arall system sefydledig cyn y cynllun peilot, gan weithredu cofnod digidol canolog a thaenlen Excel ategol a ddefnyddiwyd yn weithredol gan swyddogion. Dywedwyd bod y dull deublyg hwn yn darparu hyblygrwydd yn ogystal â chadw goruchwyliaeth o fewn yr amgylchedd System Gwybodaeth Reoli ehangach.

Mae cronfa ddata PCA mewn trydydd awdurdod lleol wedi'i lleoli o fewn eu system ddata leol, a reolir gan y tîm Systemau Gwybodaeth Reoli. Mae unrhyw blentyn a nodwyd fel PCA yn cael ei gofnodi yno, gan gynnwys dyddiad yr atgyfeiriad a'r dyddiad cau, a gall y system gynhyrchu adroddiadau cryno o achosion PCA cyfredol. Mae dau awdurdod lleol arall yn cadw cofrestr PCA ar wahân sydd hefyd yn cynnwys plant sydd wedi'u dadgofrestru o'r ysgol i gael addysg ddewisol yn y cartref lle ceir amheuaeth ynghylch addasrwydd yr addysg honno.

Dywedodd un awdurdod lleol fod cronfa ddata ar waith, ond nad yw'r awdurdod yn cadw cyfrif sefydlog o blant PCA oherwydd bod achosion yn aml yn cael eu cau'n gyflym ar ôl i ymholiadau gadarnhau cyrchfannau. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae awdurdod lleol arall yn dibynnu ar daenlen strwythuredig a gynhelir gan y swyddog PCA. Er nad yw'n

gronfa ddata ffurfiol, mae'r daenlen yn cynnwys yr holl feysydd craidd sy'n ofynnol gan y canllawiau.

### 4.3.1. Mathau o ddata a gofnodir

Mae rheoliadau PCA yn rhestru'r wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol peilot ei chynnwys yn y gronfa ddata PCA. Maent yn cynnwys:

- enw'r plentyn (gan gynnwys unrhyw enw blaenorol)
- cyfeiriad y plentyn (neu ei gyfeiriad hysbys diwethaf) gan gynnwys cod post
- dyddiad geni'r plentyn
- enw, cyfeiriad a chod post, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost holl rieni'r plentyn
- enw a chyfeiriad y sawl sy'n darparu'r cyfan neu ran o'r addysg.
- unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod gan y plentyn ac unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gelwir amdani.

Nododd pob awdurdod peilot ei fod yn casglu gwybodaeth adnabod graidd (enw, cyfeiriad, dyddiad geni, manylion rhiant/gofalwr) cyn y peilot, ond mae amrywiad yn y meysydd data ychwanegol a ddefnyddir sy'n effeithio ar ddyfnder y data a gesglir yn llwyddiannus.

### 4.3.2. Cynnwys teuluoedd sy'n darparu addysg anaddas

Roedd y dulliau o gynnwys teuluoedd sy'n darparu addysg ddewisol yn y cartref sy'n addysg anaddas yn amrywio. Cadarnhaodd tri awdurdod lleol fod eu cronfa ddata PCA yn cynnwys disgyblion sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref yr ystyrir bod eu haddysg yn anaddas. Mae un awdurdod lleol yn gweithredu systemau cyfochrog ar gyfer PCA ac addysg ddewisol yn y cartref. Ni chyfeiriodd dau awdurdod lleol yn benodol at gynnwys achosion o addysg ddewisol yn y cartref sy'n addysg anaddas yn eu cronfeydd data PCA, er bod swyddogion yn cydnabod y byddai achosion o'r fath yn debygol o gael eu casglu drwy atgyfeiriadau lles neu addysg ddewisol yn y cartref pe bai pryderon yn cael eu codi.

### 4.3.3. **Cynnwys plant heb nad yw eu cyrchfan** yn hysbys

Cadarnhaodd pob awdurdod fod plant sy'n diflannu heb gyrchfan addysgol hysbys yn cael eu cofnodi ar eu systemau PCA, ond roedd graddfa'r awtomeiddio a gwelededd y data yn amrywio.

Mae tri awdurdod lleol yn cadw rhestrau byw o ddisgyblion PCA sy'n cynnwys y rhai nad oes cadarnhad o'u cyrchfannau. Mewn dau awdurdod lleol, mae plant o'r fath yn aros ar y gronfa ddata PCA nes bod yr awdurdod lleol yn gallu gwirio eu lleoliad addysg newydd. Mewn un awdurdod lleol, mae'r achosion hyn yn parhau i fod ar agor ar eu dangosfwrdd PCA nes bod cyrchfan wedi'i chadarnhau. Yn yr un modd, mae awdurdod lleol arall yn cofnodi disgyblion â chyrchfannau anhysbys ar ei daenlen PCA a'i gofnod canolog.

### 4.3.4. Cofnodi hyd yr addysg a gollir

Mae cofnodi pa mor hir y mae plentyn wedi bod yn colli addysg yn faes lle ceir ymarfer cymysg. Mae system un awdurdod lleol yn cofnodi dyddiadau dechrau a chau yn awtomatig ar gyfer pob achos o PCA, gan ganiatáu i staff gyfrifo'r hyd yn hawdd. Mewn awdurdod lleol

arall, rhoddir dyddiad ar bob cam gweithredu, sy'n golygu y gellir cyfrifo'r hyd yn ôl-weithredol, ond nid yw'r system yn cynhyrchu'r ffigur hwn yn awtomatig. Mae ardal beilot arall yn cofnodi dyddiadau atgyfeirio a chau, sydd eto'n galluogi cyfrifo hyd y cyfnod â llaw. O ganlyniad i'r cynllun peilot, roedd un awdurdod lleol wedi ychwanegu'r maes hwn at eu taenlen PCA i'w gofnodi. Ni nododd awdurdod lleol arall a yw ei gofnodion yn cofnodi hyd y cyfnod colli addysg, gan adlewyrchu natur gymharol anffurfiol ei gronfa ddata. Hyd yma, nid yw cronfeydd data'r 3 awdurdod lleol arall yn cofnodi pa mor hir y mae disgybl wedi bod yn PCA.

# 5. Trosglwyddo a pharu data disgyblion

Mae'r bennod hon yn ystyried y broses o drosglwyddo data'r GIG ac ysgolion annibynnol, a'r camau a gymerir gan awdurdodau lleol i ddilysu a pharu'r data hynny.

## 5.1. Derbyn data ar gyfer y cynllun peilot

### 5.1.1. Data gan y GIG

Dechreuodd y cynllun peilot cronfa ddata PCA ar 8 Ebrill 2025 ar draws y 7 ardal awdurdod lleol, a mabwysiadwyd dull cyfunol ar draws dau o'r awdurdodau hynny. Rhoddodd Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru (PCGC) fynediad i awdurdodau lleol peilot at y data am gyfnod o 6 wythnos. Roedd y broses trosglwyddo data yn ddidrafferth a dywedodd staff yr awdurdodau lleol fod y broses yn un syml.

Un ystyriaeth i PCGC wrth baratoi'r data oedd nodi'r garfan o blant oedd yn byw o fewn ardal awdurdod lleol benodol o'i chronfa ddata. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, defnyddiodd PCGC ddata cod post lleol y Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG) i ddyrannu codau post yn gywir i ardaloedd awdurdodau lleol.

### 5.1.2. Ansawdd data'r GIG

Codwyd ychydig o faterion gan staff yr awdurdodau lleol ynghylch fformat, ansawdd a chywirdeb y data a dderbyniwyd gan y GIG. Roedd y rhain yn ymwneud â'r canlynol:

- gwallau sillafu a chamgymeriadau teipio mewn rhai cofnodion data
- dyddiadau geni anghywir neu wedi'u fformatio'n anghyson
- meysydd data anghyflawn
- anghysondebau yn y defnydd o enw cyfreithiol neu ddewisol plentyn
- gwybodaeth nad oedd yn gyfoes neu wybodaeth anghywir.

Mynegwyd pryder bod peth o'r wybodaeth yr oedd byrddau iechyd yn ei rhannu ag awdurdodau lleol yn wallus.

### 5.1.3. Trosglwyddo data o ysgolion annibynnol

Ysgrifennodd Llywodraeth Cymru at 84 o ysgolion annibynnol ledled Cymru yn gofyn iddynt rannu data perthnasol gydag awdurdodau lleol peilot o fewn ffenestr o chwe wythnos erbyn 20 Mai 2025. Roedd yn ofynnol i bob ysgol annibynnol rannu data ar gyfer y plant hynny ar eu cofrestr sydd fel arfer yn byw o fewn ardaloedd yr awdurdodau lleol peilot. Disgwylid i'r data gael eu trosglwyddo'n uniongyrchol o ysgolion annibynnol i bob awdurdod lleol a chawsant eu cynghori gan Lywodraeth Cymru i wneud hynny mewn ffordd ddiogel. Ni wnaeth pob ysgol annibynnol gydymffurfio â'r rheoliadau o fewn yr amserlenni a osodwyd ar gyfer rhannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol, ac adeg ein gwaith maes roedd achosion hysbys o hyd o ysgolion nad oeddent wedi cydymffurfio â'r rheoliadau hyn.

O blith y 6 ysgol annibynnol a gyfrannodd at yr adolygiad, roedd y rhan fwyaf yn cofio dod yn ymwybodol gyntaf o'r gofyniad i rannu data ag awdurdodau lleol a oedd yn rhan o'r

cynllun peilot ar ddechrau 2025. Er bod WISC a Llywodraeth Cymru wedi hysbysu ysgolion am y gofyniad, roedd ysgolion yn fwy tebygol o gofio'r ohebiaeth gan WISC. Roedd tair o blith y 6 ysgol wedi mynychu sesiwn wybodaeth a gynhaliwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Mawrth 2025 ac wedi'i chael yn ddefnyddiol.

Roedd pob ysgol annibynnol wedi ymgysylltu â'u hawdurdodau lleol priodol yn ystod y broses o drosglwyddo data ac wedi canfod yn gyffredinol fod eu hymgysylltiad ag awdurdodau lleol yn gadarnhaol ac yn ddefnyddiol.

Roedd pob un o'r 6 ysgol annibynnol a gyfrannodd at y gwerthusiad wedi rhannu data disgyblion gyda'r awdurdodau lleol perthnasol fel rhan o'r cynllun peilot. Cyflwynodd pedair ysgol eu data o fewn yr amserlenni gofynnol tra bo 2 wedi gwneud hynny ar ôl y dyddiad cau a bennwyd. Roedd un ysgol wedi tybio i ddechrau ei bod wedi'i heithrio rhag gorfod rhannu data disgyblion, gan fod gan ei holl ddisgyblion CDUau eisoes ac felly byddai'r data'n dyblygu gwybodaeth a oedd eisoes yn cael ei chadw gan yr awdurdod lleol.

Yn gyffredinol, roedd ysgolion o'r farn bod y broses o ganfod y cofnodion disgyblion yr oedd angen iddynt eu rhannu ag awdurdodau lleol yn un syml. Trosglwyddodd y rhan fwyaf y data drwy daenlen Excel, a rhoddwyd enghreifftiau o rannu data drwy ddogfennau Word a chynnwys y manylion perthnasol mewn neges e-bost. Mewn rhai achosion gofynnwyd i ysgolion uwchlwytho data drwy borth diogel ac roeddent yn ystyried bod hyn yn arfer da. Mewn achosion eraill, gofynnwyd i ysgolion e-bostio'r data mewn ffeil wedi'i diogelu gan gyfrinair at swyddog penodol neu i gyfeiriad e-bost penodol, ond nid oeddent yn gyfforddus gyda hynny. Mewn rhai achosion, cyflwynodd ysgolion ddata, ond ni chawsant eu derbyn gan y person cywir o fewn yr awdurdod lleol.

### 5.1.4. Derbyn data gan ysgolion annibynnol

Disgrifiodd y 7 awdurdod lleol brofiadau gwahanol iawn o dderbyn data gan ysgolion annibynnol.

Er enghraifft, mewn un ardal credwyd bod y broses wedi gweithio'n dda. Adroddwyd bod yr holl ysgolion annibynnol sy'n gweithredu o fewn yr awdurdod lleol ac mewn awdurdodau cyfagos wedi cyflwyno eu data yn gyflym ac yn gywir. Priodolwyd y profiad cadarnhaol yn y sir hon i berthnasoedd cryf, hirhoedlog a oedd eisoes ar waith rhwng yr awdurdod lleol a'r ysgolion annibynnol.

Roedd profiadau dau awdurdod lleol yn fwy cymysg. Cyflwynodd rhai ysgolion ddata ond ni wnaeth eraill ymateb. Nododd swyddogion y gallai perthnasoedd gwannach a thensiynau lleol gyfrif am hyn. Ystyriwyd bod templed adrodd Excel a ddarparwyd gan yr awdurdodau hyn, a gyflwynwyd yn unol â chyngor Llywodraeth Cymru, yn gam cadarnhaol ac yn helpu i safoni'r ffurflenni a dderbyniwyd oddi wrth y sector.

Bu'r broses trosglwyddo data yn fwy heriol ar gyfer yr awdurdodau lleol sy'n weddill. Prin oedd yr ysgolion annibynnol o fewn yr ardaloedd awdurdodau lleol hyn a ddarparodd ddata erbyn y dyddiad cau, ac anfonodd llawer ddata sawl wythnos yn ddiweddarach. Cyrhaeddodd y wybodaeth mewn fformatau anghyson, gyda gwahanol lefelau o ddiogelwch ac roedd rhai ysgolion wedi hepgor manylion hanfodol disgyblion. Mewn rhai achosion,

roedd ysgolion wedi cynnwys manylion ar gyfer disgyblion a oedd naill ai'n iau neu'n hŷn nag oedran ysgol statudol.

Nid oedd rhai awdurdodau lleol yn hyderus eu bod wedi cael data o bob ysgol berthnasol, gan eu bod yn ansicr sawl ysgol annibynnol oedd yn addysgu plant o'u hardal. Yn yr achosion hyn, awgrymwyd bod diffyg cofrestr gynhwysfawr, gyfredol o bob ysgol annibynnol ledled Cymru yn rhwystr i wirio bod pob ysgol wedi'i chynnwys.

Adroddodd awdurdodau lleol hefyd fod yr holl gysylltiadau a dderbyniwyd gan rai ysgolion annibynnol eisoes yn hysbys iddynt, gan fod yr awdurdod wedi lleoli'r disgyblion hyn yn yr ysgolion arbennig hynny.

Un mater olaf a godwyd gan awdurdodau lleol oedd bod rhai ysgolion annibynnol ond yn rhannu gwybodaeth ar gyfer disgyblion â chyfeiriad parhaol yn ardal yr awdurdod hwnnw, ac eithrio disgyblion preswyl a oedd yn byw yn y sir yn ystod y tymor.

## 5.2. Dilysu a pharu data

Roedd rhywfaint o bryder ymhlith awdurdodau lleol ynghylch ymgymryd â'r ymarfer paru data ar ôl i ddata'r GIG a data ysgolion annibynnol gael eu derbyn, yn enwedig o ystyried y nifer o gofnodion disgwyliedig. Fel arfer, roedd y tasgau dilysu a pharu data yn cael eu neilltuo i dimau Systemau Gwybodaeth Reoli neu swyddogion data sy'n gyfrifol am reoli cronfeydd data addysg o fewn yr awdurdodau lleol.

Defnyddiodd yr awdurdodau lleol peilot wahanol ddulliau i baru data'r GIG ac ysgolion annibynnol â'u cofnodion eu hunain.

### 5.2.1. Dulliau paru awtomataidd a lled-awtomataidd

Dywedodd tri awdurdod lleol eu bod wedi defnyddio dulliau awtomataidd fel Fuzzy LookUp a Power Query Excel i gefnogi'r gwaith o baru a gwirio'r data. Credwyd bod yr offer hyn wedi bod yn effeithiol, yn gymharol gyflym i'w mabwysiadu a'u defnyddio, ac yn rhoi sgôr cywirdeb i awdurdodau lleol ar gyfer y cofnod paru. Roedd pedwerydd awdurdod lleol wedi ceisio defnyddio dull paru data awtomataidd ond wedi wynebu anawsterau wrth wneud hynny.

Defnyddiodd y rhan fwyaf o awdurdodau peilot ddulliau paru data lled-awtomataidd, gan gyfuno swyddogaethau Excel ac Access gydag elfen o fewnbwn â goruchwyliaeth â llaw er mwyn paru'r data.

Fodd bynnag, mewn un awdurdod adroddwyd na ellid paru unrhyw un o'r cofnodion mewn modd awtomataidd na lled-awtomataidd oherwydd anghydnawsedd rhwng setiau data'r GIG a'u setiau data eu hunain. Yn yr achos hwn, cafodd yr holl gofnodion GIG a dderbyniwyd eu gwirio â llaw gan y staff.

Roedd rhai o'r prif faterion a godwyd gan awdurdodau lleol wrth geisio paru cofnodion y GIG yn cynnwys:

- y ffaith bod strwythurau'r data yn set ddata'r GIG yn wahanol i strwythurau set ddata'r awdurdod lleol
- anghysondebau o ran fformat y data
- ymdrin ag enwau cyffredin a ddefnyddir yn aml
- trin data ar gyfer gefeilliaid
- ymdrin ag enwau dyblyg
- diffyg dynodydd unigryw ar gyfer pob cofnod, rhif GIG neu gyfeirnod arall, y gallai'r awdurdod lleol ei ddefnyddio.

### 5.2.2. Paru data â llaw

Fe wnaeth awdurdodau lleol ymgymryd â gwaith helaeth i baru data â llaw ar ôl defnyddio dulliau awtomataidd, ac roedd y llwyth gwaith yn amrywio'n sylweddol yn dibynnu ar swm y data a llwyddiant yr awtomeiddio. Mewn rhai ardaloedd, roedd angen wythnosau neu hyd yn oed fisoedd i gwblhau'r dasg, a oedd yn aml yn cael ei gwneud gan dimau bach neu swyddogion unigol yn gweithio y tu hwnt i oriau arferol.

Dywedodd awdurdodau lleol a oedd wedi derbyn symiau mawr o ddata fod paru data â llaw yn llafurus, a bod maint y dasg yn dibynnu'n fawr ar effeithiolrwydd y dulliau awtomataidd a lled-awtomataidd a ddefnyddiwyd. Treuliodd yr awdurdodau hyn sawl wythnos yn cwblhau gwiriadau dilysu â llaw.

Er enghraifft, mewn un awdurdod cwblhawyd y broses baru â llaw dros sawl wythnos ac roedd yn cynnwys gwirio dros chwarter data'r GIG a dderbyniwyd. Mewn awdurdod arall amcangyfrifwyd y byddai angen bron i 500 o oriau i wirio'r holl gofnodion a oedd heb eu paru, ac felly penderfynwyd peidio â mynd ar drywydd paru'r data'n llawn â llaw.

Mewn rhai achosion, roedd y dasg paru â llaw yn dal i fynd rhagddi adeg ein gwaith maes. Mewn un achos, roedd yr awdurdod lleol yn aros am ddata gan awdurdodau lleol cyfagos er mwyn cwblhau'r dasg hon cyn symud ymlaen i gam nesaf y gwaith.

Roedd tua hanner yr awdurdodau o'r farn bod yr amser a dreuliwyd yn paru cofnodion â llaw wedi bod yn ddefnydd dilys o amser y staff. Cwestiynodd y gweddill ai dyma oedd y defnydd gorau o amser y staff ac roedd un o'r farn bod y dasg wedi mynd ag amser a fyddai wedi bod yn fwy buddiol i'r staff fod wedi'i dreulio yn ymateb i achosion dilys o PCA.

At ei gilydd, roedd llai o broblemau wrth baru data’r ysgolion annibynnol, gan ystyried fod nifer y cofnodion a dderbyniwyd ar draws yr awdurdodau lleol peilot yn rhesymol.

### 5.2.3. Cofnodion a gafodd eu paru

Mae Tabl 5.1 yn nodi cyfanswm cofnodion y GIG ac ysgolion annibynnol a dderbyniwyd ar draws yr ardaloedd a gymerodd ran yn y cynllun peilot, ac o blith y rhain faint o gofnodion a gafodd eu paru'n llawn neu'n rhannol. Yn seiliedig ar y data a gyflwynwyd gan 5 awdurdod lleol, derbyniwyd cyfanswm o 93,024 o gofnodion gan y GIG a'r sector ysgolion annibynnol. Yn unol â gwahanol lefelau poblogaeth plant ar draws yr ardaloedd, roedd y rhain yn amrywio o isafswm o ychydig o dan 9,000 o gofnodion i uchafswm o ychydig dros 33,000 o gofnodion.

At ei gilydd, roedd 94% o'r cofnodion hyn a dderbyniwyd gan y GIG ac ysgolion annibynnol wedi'u paru â chofnodion awdurdodau lleol, naill ai'n berffaith (68%) neu'n rhannol (26%). Roedd cyfran yr holl gofnodion a gafodd eu paru ar lefel awdurdod lleol unigol yn amrywio o 89% i 98%.

Roedd nifer cofnodion data PCGC ac ysgolion annibynnol na ellid eu paru â chronfeydd data awdurdodau lleol yn amrywio o isafswm o 180 i uchafswm o 3,517. Fel cyfran o'r holl gofnodion a dderbyniwyd, roedd hyn yn cyfateb i ychydig dros 2% mewn rhai awdurdodau, gan godi i tua 11% mewn un arall. Priodolwyd y nifer uwch o gofnodion heb eu paru yn yr awdurdod hwn i'r gyfran fawr o ddisgyblion sy'n mynychu ysgolion mewn awdurdodau cyfagos. Er bod yr awdurdod lleol wedi gofyn am ddata o'r ardaloedd hyn, nid oeddent wedi dod i law adeg ein gwaith maes.

**Tabl 5.1: Cyfanswm y cofnodion plant a gafodd eu derbyn a'u paru yn ystod y prosiect peilot [data yn seiliedig ar 5 ALl]**

| | PCGC | Ysgolion annibynnol | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| Nifer y cofnodion plant a dderbyniwyd | 67,768 | 756 | 93,024 |
| Wedi'u paru'n berffaith â chronfeydd data awdurdodau lleol (CYBLD, Addysg Ddewisol yn y Cartref, AHY, Y Tu Allan i'r Sir) | 54,393 | 808 | 63,039 |
| Wedi'u paru'n rhannol â chronfeydd data awdurdodau lleol | 17,113 | 95 | 24,208 |
| Cofnodion heb eu paru | 4,523 | 237 | 5,700 |

Noder: Ni chafodd y data ar gyfer PCGC ac ysgolion annibynnol eu gwahanu ar gyfer un awdurdod lleol, felly nid yw'r golofn cyfanswm yn cyfateb i golofnau PCGC ac ysgolion annibynnol.

Ffynhonnell: Data a ddarparwyd gan 5 awdurdod lleol a oedd yn rhan o'r prosiect peilot

# 6. Nodi plant a allai fod yn colli addysg ac ymgysylltu â nhw

Mae'r bennod hon yn ystyried i ba raddau y mae'r prosiect peilot wedi helpu i nodi mwy o blant a allai fod yn colli addysg ar draws yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun peilot. Mae hefyd yn nodi'r camau a gymerwyd gan awdurdodau lleol i nodi plant a allai fod yn colli addysg a nodwyd drwy'r prosiect peilot yn dilyn yr ymarfer paru data, ac ymgysylltu â'r plant hynny.

## 6.1. Nodi mwy o blant a allai fod yn colli addysg

Mae Tabl 6.1 yn cyflwyno nifer yr achosion o PCA sy'n hysbys i awdurdodau lleol cyn ac ar ôl cymryd rhan yn y cynllun peilot, ynghyd â nifer yr achosion o blant a allai fod yn colli addysg a nodwyd drwy'r ymarfer. Awgryma'r data a ddarparwyd gan 5 awdurdod lleol fod y cynllun peilot wedi arwain at gynnydd amlwg yn nifer y plant a allai fod yn colli addysg a gofnodwyd gan awdurdodau sy'n cymryd rhan yn y cynllun. Fodd bynnag, mae adborth yn dangos mai cymysg fu effeithiolrwydd y cynllun peilot o ran nodi PCA a gadarnhawyd. Dywedodd rhai awdurdodau fod yr ymarfer yn werthfawr er mwyn gwella ansawdd data ac ymwybyddiaeth o PCA, ond roedd eraill o'r farn ei fod yn llafurus, yn dreth ar adnoddau, ac mai prin oedd ei fudd ymarferol o ran nodi achosion newydd. Nid oedd un awdurdod lleol yn gallu rhoi barn bendant, gan fod gwaith dilynol yn dal i fynd rhagddo ar y pryd.

**Tabl 6.1: Nifer y plant a allai fod yn colli addysg a nodwyd o ganlyniad i'r cynllun peilot**

| | Nifer yr achosion |
|---|---:|
| Nifer y PCA a oedd yn hysbys i'r awdurdod lleol cyn y cynllun peilot | 348 |
| Nifer y PCA sy'n hysbys i'r awdurdod lleol ar ôl y cynllun peilot | 2,631 |
| Faint o PCA posibl y mae'r peilot wedi helpu i'w nodi | 5,386 |

Ffynhonnell: Data ar ddysgwyr a ddarparwyd gan 5 awdurdod lleol

Dywedodd tri awdurdod lleol fod y cynllun peilot wedi eu helpu i wella ansawdd a dibynadwyedd eu data, ac felly wedi helpu i nodi plant a allai fod yn colli addysg Nododd staff yn yr awdurdodau hyn fod y broses yn rhoi mwy o sicrwydd bod eu rhestrau PCA eu hunain yn gywir ac yn gyfredol. Ar gyfer yr ardaloedd hyn, cryfhaodd y cynllun peilot y systemau presennol a chynyddu hyder yn y wybodaeth a oedd ganddynt.

Nid oedd un awdurdod lleol yn gallu pennu a oedd y cynllun peilot wedi nodi PCA ychwanegol gan fod gwaith dilysu a pharu data yn dal i fynd rhagddo.

Cwestiynodd y 3 awdurdod lleol sy'n weddill a oedd y cynllun peilot yn ychwanegu gwerth, gan ddweud nad oedd wedi nodi unrhyw achosion ychwanegol o PCA. Mewn un achos, dywedwyd bod yr holl gofnodion heb eu paru yr oedd staff wedi mynd ar eu trywydd hyd yn hyn yn ymwneud â phlant sy'n mynychu ysgolion y tu allan i'r sir felly nid oeddent yn PCA

ac mewn achos arall, beirniadwyd yr ymarfer fel proses bapur feichus a oedd wedi dargyfeirio amser staff o waith PCA rheng flaen.

## 6.2. Camau dilynol a gymerwyd gan yr awdurdod lleol i nodi PCA

Roedd pedwar awdurdod lleol eisoes wedi dechrau ymdrin â chofnodion plant heb eu paru, ond roedd llwyddiant yr ymdrechion hyn yn amrywio oherwydd ffactorau megis nifer y cofnodion heb eu paru, manylion cyswllt ar goll, diffyg cyfeiriad cartref parhaol, teuluoedd yn symud allan o'r sir a'r angen i gael gwybodaeth gan awdurdodau cyfagos.

Mewn un achos, dyrannwyd rhestr heb ei pharu o tua 600 o gofnodion i swyddog fynd ar eu trywydd. Roedd diffyg gwybodaeth gyswllt fel rhif ffôn neu gyfeiriad ar lawer o gofnodion, ac roedd hynny'n gwneud y dasg yn heriol iawn. Dim ond nifer bach o achosion yr aethpwyd ar eu trywydd, a gohiriwyd yr ymarfer nes y gellid lleihau'r rhestr drwy groeswirio â data awdurdodau cyfagos.

Mewn achos arall, rhannwyd rhestr heb ei pharu o 940 o gofnodion ymhlith y timau lles ac addysg yn y cartref. Aethpwyd ar eu trywydd mewn ffordd systematig. Yn gyntaf, rhannwyd cofnodion ger ffiniau siroedd cyfagos gyda'r awdurdodau hynny i ganfod a oedd y plant yn mynychu ysgolion y tu allan i'r sir. Bu hyn yn effeithlon a chafodd dros hanner y cofnodion eu datrys yn y modd hwn. Yn dilyn hynny, dechreuodd y timau gysylltu â theuluoedd dros y ffôn pan oedd modd cael rhifau o adrannau eraill fel y gwasanaethau cymdeithasol neu wasanaethau plant, yn ogystal â chynnal ymweliadau cartref. Ar gyfer rhai achosion, cadarnhaodd cyswllt dros y ffôn fod teuluoedd wedi symud dramor, ac ategwyd hynny gan gofnodion y dreth gyngor. Mewn achosion eraill, bu'r gwaith o gymorth i adnabod plant a oedd yn cael eu haddysgu yn y cartref nad oeddent yn hysbys o'r blaen.

Yn yr un modd, mewn 2 awdurdod lleol arall, roedd swyddogion lles yn mynd ar drywydd cofnodion heb eu paru adeg y gwaith maes, gan weithio gyda sypiau ymarferol o tuag 20 o gysylltiadau ar y tro. Roedd y broses hon yn cynnwys anfon llythyrau at deuluoedd gan ddefnyddio cyfeiriadau cronfa ddata PCGC i'w hysbysu am ddyletswydd yr awdurdod i wirio trefniadau addysg, ac yna ymweliadau â chartrefi i gadarnhau preswyliad. Disgwyliwyd i'r rhan fwyaf o achosion gynnwys teuluoedd nad oeddent yn y cyfeiriad a gofnodwyd mwyach, tra bod rhai plant yn debygol o fynychu ysgolion annibynnol nad oeddent wedi cyflwyno data. Roedd rhai cofnodion yn cynnwys plant wedi'u cofrestru gyda chyfeiriad meddygfa, o bosibl oherwydd diffyg cartref parhaol, ac roedd hynny'n cymhlethu'r broses adnabod.

Nid oedd gan yr awdurdodau lleol eraill gynlluniau i fynd ar drywydd data heb eu paru neu roeddent yn paratoi i ddechrau ar y gwaith ar ôl derbyn data gan awdurdodau cyfagos ac ysgolion annibynnol, yn bennaf oherwydd bod nifer y cofnodion heb eu paru yn cael ei ystyried yn rhy anhylaw o gymharu â'r capasiti staff a oedd ar gael.

# 7. Myfyrdodau o'r prosiect peilot

Mae'r bennod hon yn ystyried myfyrdodau awdurdodau lleol ar y prosiect peilot. Mae hefyd yn ystyried y gwelliannau neu'r diwygiadau y gellid eu gwneud i'r rheoliadau, ac adborth ehangach ynglŷn â'r dyfodol.

## 7.1. I ba raddau y mae'r cynllun peilot wedi nodi PCA nad oeddent yn hysbys o'r blaen

Ar draws y 7 ardal beilot, roedd awdurdodau lleol wedi cael profiadau cymysg o'r rheoliadau cronfa ddata PCA ac i ba raddau y maent wedi'u cefnogi i nodi PCA nad oeddent yn hysbys iddynt o'r blaen. Er bod pawb yn cydnabod rhesymeg sylfaenol y cynllun peilot a'i uchelgais i gryfhau gwelededd PCA, roedd eu hasesiadau o'i werth ymarferol a'i effaith ar adnabod PCA a oedd yn anhysbys o'r blaen yn amrywio.

Daeth tair thema allweddol i'r amlwg o'r trafodaethau gyda'r ardaloedd peilot ynghylch gwerth canfyddedig y broses a gynhaliwyd fel rhan o'r cynllun peilot.

Yn gyntaf, er gwaethaf yr heriau, roedd y rhan fwyaf o'r awdurdodau yn ystyried bod y cynllun peilot yn werth chweil mewn egwyddor, hyd yn oed oes nad oedd yn werth chweil yn ymarferol eto. Roedd wedi bod yn gam clir ymlaen o ran nodi ac olrhain PCA posibl mewn 3 awdurdod lleol. Roedd swyddogion yn yr awdurdodau hyn yn hyderus y byddai gwaith dilynol parhaus yn lleihau'r rhestr i achosion dilys o PCA. Yn bwysig ddigon, roeddent yn gweld cyfle i gryfhau'r canlyniadau drwy gyfranogiad ehangach gan bartneriaid, er enghraifft drwy annog rhannu data gydag asiantaethau gwirfoddol fel y rhai sy'n cefnogi dioddefwyr cam-drin domestig.

Roedd dau awdurdod lleol hefyd yn gwerthfawrogi cymryd rhan yn y cynllun peilot am wahanol resymau, un am ddatgelu diffygion data systemig, a'r llall am roi sicrwydd a dilysrwydd bod eu systemau presennol eisoes yn gadarn.

Yn yr ystyr hwn, gellir dadlau bod y cynllun peilot wedi datblygu dealltwriaeth gyffredin o sut olwg fyddai ar system effeithiol o rannu data , hyd yn oed pe bai ei effaith uniongyrchol ar nodi PCA yn gyfyngedig.

Nid oedd dau awdurdod lleol arall yn teimlo eu bod yn fwy gwybodus a byddai'r anhawster parhaus o nodi PCA sy'n deillio o boblogaethau symudol, fel teuluoedd teithwyr neu'r rhai a adleolwyd oherwydd trais domestig, yn parhau.

Yn ail, ansawdd y data oedd y prif rwystr, gyda bron pob awdurdod yn tynnu sylw at ddata gwael neu ddata nad oedd yn gyfoes gan y GIG fel y prif gyfyngiad. Roedd consenswS eang, er bod gan y gronfa ddata botensial i wella'r broses o rannu data rhwng y meysydd iechyd ac addysg, bod ei chyfraniad uniongyrchol at nodi PCA newydd yn gyfyngedig oherwydd ansawdd ac amseroldeb y wybodaeth a ddarparwyd.

Cwestiynodd awdurdodau lleol peilot a fyddai ailadrodd yr ymarfer o flwyddyn i flwyddyn yn arwain at welliant ystyrlon oni bai bod y GIG yn glanhau ac yn safoni ei gofnodion.

Yn drydydd, dadleuwyd bod baich gweinyddol trwm iawn yn gysylltiedig â'r cynllun peilot. Roedd y ffaith bod gan dimau awdurdodau lleol gapasiti cyfyngedig i ymdrin â'r broses paru data yn golygu bod y broses yn fwy o dreth byth ar adnoddau. Oni bai bod newidiadau i'r rheoliadau a'r gofynion, byddai'n anodd cynnal y broses heb staff ychwanegol neu gapasiti technegol ychwanegol.

Dywedodd sawl awdurdod fod yr ymarfer wedi gofyn am ymdrech anghymesur o'i gymharu â gwerth y canlyniadau a gafwyd, gan lyncu amser y staff a'i bod yn ddibynnol iawn ar staff ag arbenigedd mewn trin data.

## 7.2. Gwelliannau a gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â rhannu data iechyd

Ar draws pob ardal beilot, cafwyd sawl awgrym mewn perthynas â gwella'r broses o rannu data iechyd. Pwysleisiodd adborth gan awdurdodau lleol fod data nad yw'n gyfoes neu sy'n anghyflawn yn tanseilio diben y gronfa ddata PCA. Galwyd am setiau data mwy cyfredol, yn ddelfrydol yn cynnwys cofnodion newydd neu wedi'u newid yn unig, a chyda stampiau amser neu ddangosyddion clir.

Roedd awdurdodau lleol yn dadlau y dylai Llywodraeth Cymru chwarae rhan fwy gweithredol wrth lanhau, hidlo a chroesgyfeirio data'r GIG cyn eu dosbarthu. Teimlai awdurdodau lleol y byddai rhag-brosesu’r data'n ganolog, gan ddileu achosion o ddyblygu a'u croesgyfeirio yn erbyn set ddata addysg lawn bresennol CYBLD cyn eu trosglwyddo i awdurdodau lleol yn ffordd llawer mwy effeithlon o ymdrin â’r data. Drwy gyflawni'r gwaith paru data cychwynnol hwn yn ganolog a dosbarthu'r achosion heb eu datrys yn unig i awdurdodau lleol ymchwilio ymhellach iddynt, byddai hyn yn lleihau dyblygu ymdrech, yn sicrhau cysondeb y dull ac yn gwneud y broses yn fwy cynaliadwy, yn enwedig pe bai'r gronfa ddata yn dod yn ofyniad blynyddol neu barhaus.

Roedd y cwestiwn o gynnwys rhif y GIG yn nodwedd amlwg yn yr adborth. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau yn cytuno y gallai rhif y GIG, yn ddamcaniaethol, wella'r broses paru data yn sylweddol drwy ddarparu dynodydd sefydlog, cyffredinol.

Soniodd tair ardal beilot y gallai fod yn werth ymchwilio i p'un a fyddai awdurdodau lleol yn elwa o gael mynediad at ddata Rhif Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN) [troednodyn 3] ar gyfer pob cofnod mewn unrhyw drosglwyddiadau data yn y dyfodol, yn enwedig gan fod PCGC wedi dechrau ymgorffori data UPRN yn eu systemau rheoli data yn ddiweddar. Roeddent yn credu y gallai UPRN fod yn allwedd gyffredin amgen ar gyfer paru data, gan y byddai'n gyson ar draws setiau data'r sector cyhoeddus, yn osgoi cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â data dynodwyr iechyd personol ac yn gwella cywirdeb ac effeithlonrwydd y broses baru.

[3] Rhif Cyfeirnod Eiddo Unigryw sy'n ymwneud â chyfeiriad unigryw ym Mhrydain Fawr [Adnabod gwybodaeth am eiddo a strydoedd - GOV.UK]

## 7.3. Gwelliannau a gwersi a ddysgwyd mewn perthynas â rhannu data ysgolion annibynnol

Codwyd pryderon ynghylch cywirdeb, diogelu data a chydymffurfiaeth ar draws sawl awdurdod lleol peilot. Disgrifiodd swyddogion amrywiad yn y ffordd y mae ysgolion annibynnol yn trin data. Fe wnaethant ategu'r angen am ddulliau trosglwyddo diogel a mwy o atebolrwydd ymhlith ysgolion annibynnol am ansawdd a diogelwch eu gwybodaeth.

Yn ogystal â gwelliannau technegol, tynnodd awdurdodau lleol sylw at yr angen am fecanweithiau cydymffurfio cryfach gan gwestiynu beth fyddai'r canlyniadau a'r goblygiadau i ysgolion annibynnol pe na fyddent yn cydymffurfio. Fe wnaethant bwysleisio bod cyflwyno data yn ofyniad deddfwriaethol a bod angen gwneud ysgolion yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau.

Ar y cyfan, roedd awdurdodau lleol peilot yn fodlon ar y categorïau o wybodaeth y gofynnwyd amdanynt mewn egwyddor ond pwysleisiwyd yr angen i'r categorïau hynny gael eu cymhwyso'n gyson ac yn gywir. Roedd yr awdurdodau lleol peilot yn unfrydol eu barn y byddai safoni fformat a meysydd y data yn gwella defnyddioldeb a chywirdeb y data a dderbynnir oddi wrth ysgolion annibynnol yn sylweddol pe bai'n ofynnol iddynt eu hanfon at awdurdodau lleol.

Gwnaeth dau awdurdod lleol awgrymiadau ynghylch y data y dylai ysgolion annibynnol eu darparu, gan gynnwys set graidd o ddynodwyr a fyddai'n cynnwys enw cyntaf, cyfenw, dyddiad geni, ac yn ddelfrydol Rhif Unigryw'r Disgybl (RhUD) ochr yn ochr â data cyfeiriad strwythuredig gyda meysydd ar wahân ar gyfer rhif tŷ, stryd a chod post. Fe wnaethant hefyd awgrymu y dylid safoni meini prawf oedran neu feini prawf cymhwystra fel mai dim ond disgyblion o oedran ysgol gorfodol, a'r rhai sy'n byw yn yr awdurdod lleol perthnasol, fyddai'n cael eu cynnwys. Byddai cynnwys RhUDau yn arbennig o gymorth mawr gyda'r gwaith paru data.

Awgrymodd dau awdurdod lleol ymhellach y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu diffiniadau clir o'r hyn sy'n cyfrif fel "presenoldeb" neu "gofrestru" at ddibenion adrodd, er mwyn osgoi anghysondebau rhwng dehongliadau ysgolion. Byddai hyn yn helpu i sicrhau bod data am ddisgyblion sydd wedi gadael yn ddiweddar, wedi symud, neu â chofrestriad deuol yn cael eu casglu'n gyson. Nodwyd hefyd y dylid cyflenwi data mewn un swp cyflawn gan fod cael gwybodaeth fesul tipyn yn gwneud olrhain a chysoni'r data yn anoddach.

Galwodd awdurdodau lleol peilot am fwy o gydgysylltu a safoni canolog yn ddelfrydol, gan awgrymu y gallai Llywodraeth Cymru ymgymryd â rôl gydgysylltu gryfach, a chyhoeddi canllawiau unffurf, templedi safonedig ac amserlenni clir yn uniongyrchol i ysgolion annibynnol. Teimlai ardaloedd peilot fod diffyg cyfarwyddyd cenedlaethol cyson i ysgolion annibynnol ynghylch eu cyfrifoldebau rhannu data a bod y disgwyliadau arnynt yn aneglur – o ran pa wybodaeth y dylid ei hanfon a sut y dylid ei throsglwyddo. Awgrymodd un awdurdod peilot y gallai Llywodraeth Cymru ddatblygu porth pwrpasol, neu y gallai ysgolion annibynnol ddefnyddio platfform Gwybodeg y GIG (neu blatfform tebyg) ar gyfer trosglwyddo data yn ddiogel.

Cwestiynodd pob ardal beilot ymarferoldeb ei gwneud yn ofynnol i ysgolion anfon data ar wahân at bob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru gan ei ddisgrifio fel rhywbeth

aneffeithlon ac afrealistig. Yn hytrach, fe wnaethant holi a ellid ymchwilio i fodel canolog, lle y gallai ysgolion annibynnol gyflwyno eu data unwaith i Lywodraeth Cymru, a fyddai wedyn yn dosbarthu'r wybodaeth berthnasol i'r awdurdodau lleol priodol ar ôl iddi gael ei dilysu.

Gwnaeth yr ysgolion annibynnol a gyfwelwyd yr awgrymiadau canlynol ar gyfer gwella'r broses trosglwyddo data:

- proses wedi'i mireinio a oedd yn hepgor yn awtomatig ddisgyblion wedi'u lleoli gan yr ALl sydd eisoes ar systemau monitro statudol yr awdurdod lleol (CDUau neu AHY) neu faner data gan yr awdurdod lleol yn cadarnhau bod y disgybl eisoes wedi'i leoli/yn cael ei fonitro
- porth diogel canolog/platfform canolog wedi'i amgryptio fel Egress – heb newidiadau sylweddol, nid yw'r broses yn gwneud y mwyaf o'i photensial i gadw plant yn ddiogel
- darparu mwy o ddata gan gynnwys enw a chyfeiriad y ddau riant, cyfradd presenoldeb fel % ac unrhyw bryderon diogelu.

Tynnodd un ysgol annibynnol sylw at y ffaith bod data disgyblion, yn enwedig ar gyfer poblogaethau symudol fel teuluoedd milwyr, yn newid yn gyson, gan wneud diweddariadau amserol yn hanfodol. Fe wnaethant gynnig y gellid gwella cywirdeb a chyfoesedd y data drwy system rhannu data fwy awtomataidd sy'n cysylltu cofrestr ddeinamig pob ysgol yn uniongyrchol â setiau data awdurdodau lleol. Byddai hyn yn caniatáu diweddariadau amser real heb ailanfon ffeiliau llawn, gan sicrhau bod newidiadau (megis symudiadau disgyblion) yn cael eu cyfleu ar unwaith a lleihau'r risg y bydd plant sy'n colli addysg (PCA) yn mynd drwy'r rhwyd.

Yn absenoldeb awtomeiddio, awgrymodd ysgolion y dylid pennu terfyn amser gorfodol ar gyfer hysbysu ALlau am symudiadau disgyblion. Mae rhai eisoes yn mynd y tu hwnt i'r gofynion presennol, gan gadw cysylltiad nes bod trosglwyddiad plentyn i ysgol arall wedi'i gadarnhau, gan adlewyrchu arfer diogelu cryf.

Fodd bynnag, nodwyd fod y broses o nodi awdurdod lleol cartref pob disgybl yn broses a wneir â llaw, fesul un, ar hyn o bryd**,** sy'n llafurus, yn wallus, ac yn faich gweinyddol trwm. Byddai datrysiad ar ffurf prosesu sypiau, fel cysylltu â Rhif Unigryw'r Dysgwr (ULN) drwy borth y Gwasanaeth Cofnodion Dysgu presennol, yn gwella effeithlonrwydd a chysondeb.

Galwodd ysgolion annibynnol hefyd am ganllawiau cenedlaethol cliriach ynghylch:

- pa ddisgyblion sydd wedi'u cynnwys (e.e., y rhai o oedran ysgol orfodol)
- sut y dylid cofnodi disgyblion preswyl, o ystyried y gwahaniaeth rhwng eu preswylfa, eu cofrestriad â meddyg teulu, a ffiniau eu hawdurdod lleol cartref.

Awgrymodd un ysgol annibynnol y dylid trosglwyddo data o leiaf yn flynyddol a phan fydd disgyblion yn gadael cofrestr yr ysgol.

Yn olaf, rhybuddiodd ysgolion y gallai rheoliadau sydd wedi'u cynllunio'n wael arwain at ganlyniadau anfwriadol, er enghraifft, gallai rhieni sy'n ceisio osgoi cael eu goruchwylio gan dimau PCA hefyd osgoi cofrestru ar gyfer gofal iechyd, gan beri risg diogelu i'r plentyn.

## 7.4. Diwygiadau neu welliannau pellach a awgrymir i'r rheoliadau

Gwnaed ambell awgrym a sylw ychwanegol gan yr awdurdodau lleol peilot ar gyfer diwygiadau neu welliannau pellach i'r rheoliadau.

Yn gyntaf, problem gyson ar draws awdurdodau oedd yr anhawster i olrhain plant sy'n symud rhwng ardaloedd awdurdodau lleol, o fewn Cymru a thros y ffin i Loegr, yn enwedig lle y gall plant fod wedi'u cofrestru gyda meddyg teulu mewn un ardal ond eu bod yn mynychu ysgol mewn ardal arall. Gyda'i gilydd, roeddent yn teimlo bod yr enghreifftiau hyn yn amlygu'r angen am ddarpariaethau rheoleiddio penodol i hwyluso rhannu data ar draws ffiniau a rhwng awdurdodau.

Yn ail, roedd sawl awdurdod o'r farn nad oedd y cyfnodau rhannu data presennol, yn enwedig trosglwyddiadau blynyddol, yn ddigon ymatebol i symudiadau plant a chyflymder y newidiadau mewn bywyd go iawn. Fe wnaethant gynnig trosglwyddiadau mwy rheolaidd, chwarterol o bosibl, a fyddai hefyd yn gwneud y llwyth gwaith yn fwy hylaw drwy ganiatáu mynd ar drywydd sypiau llai a mwy amserol.

Yn drydydd, nododd sawl awdurdod faterion technegol a diffiniadol sy'n cymhlethu'r broses o nodi PCA. Tynnodd un sylw at broblemau gyda geogodio a diffiniadau o ffiniau gweinyddol, gan ddweud y gall eiddo fod wedi'i restru o dan un awdurdod lleol yn y rhestr eiddo genedlaethol ond yn talu treth gyngor i awdurdod arall.

Yn olaf, tynnodd rhai awdurdodau sylw at yr angen i drin achosion sensitif yn ofalus, er mwyn cynnal hyder y cyhoedd a pharchu egwyddorion diogelu data.

Awgrymodd ymatebwyr o ysgolion annibynnol nifer o welliannau ymarferol i reoliadau PCA yn y dyfodol er mwyn gwella'r broses o adnabod ac olrhain plant sy'n colli addysg. Fe wnaethant awgrymu y dylai'r rheoliadau wahaniaethu rhwng ysgolion prif ffrwd annibynnol neu ysgolion sy'n codi ffioedd gyda disgyblion wedi'u cofrestru'n breifat, ac ysgolion ADY annibynnol sy'n gweithredu'n gyfan gwbl o dan leoliad awdurdod lleol. Gan fod y grŵp olaf eisoes o dan oruchwyliaeth statudol awdurdodau lleol, byddai eithriad symlach neu gyswllt data awtomatig ar gyfer yr ysgolion hyn yn gwneud y broses adrodd yn fwy cymesur ac effeithlon.

Yn fwy cyffredinol, pwysleisiodd yr ymatebwyr yr angen am brosesau safonedig, symlach, gan gynnwys:

- cael enw cyswllt, a manylion cyswllt y person hwnnw, ym mhob awdurdod lleol i drafod unrhyw faterion
- ystyried cyflwyno ffurflen safonedig, syml i gofnodi trefniadau pontio disgyblion, yn enwedig o'r ysgol feithrin i'r dosbarth derbyn ar draws gwahanol leoliadau, er mwyn sicrhau parhad a gwelededd ar gyfnodau pontio allweddol
- systemau awtomataidd neu symlach ar gyfer diweddaru gwybodaeth am ddisgyblion i leihau'r gwaith paru â llaw ac i leihau gwallau.

# 8. Casgliadau ac argymhellion

Yn y bennod hon, rydym yn dychwelyd i ystyried y cwestiynau ymchwil a osodwyd ar gyfer y gwerthusiad ac yn cynnig set o argymhellion i Lywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, y sector iechyd a'r sector ysgolion annibynnol eu hystyried ar gyfer y dyfodol. Er bod ein casgliadau a'n hargymhellion yn seiliedig ar dystiolaeth a gasglwyd oddi wrth awdurdodau lleol a oedd yn rhan o'r cynllun peilot cronfa ddata, mae'n debyg y bydd llawer ohonynt yn berthnasol i awdurdodau lleol eraill hefyd. Felly, credwn y dylid eu hystyried fel argymhellion ehangach i'w gweithredu yn y dyfodol.

## 8.1. Effeithiolrwydd systemau a phrosesau presennol awdurdodau lleol a oedd yn rhan o'r cynllun peilot ar gyfer canfod plant a allai fod yn colli addysg

Canfu'r adolygiad fod tua hanner yr awdurdodau lleol peilot yn credu bod ganddynt systemau a phrosesau cryf ar gyfer nodi PCA pan ddaethant yn rhan o'r cynllun peilot, ond roedd yr hanner arall yn credu eu bod mewn sefyllfa wannach.

Adeg ein gwaith maes roedd cynnydd yn cael ei wneud gan awdurdodau lleol peilot, gyda chefnogaeth gan Lywodraeth Cymru, i fynd i'r afael â gwendidau. Er enghraifft, roedd gwaith ar y gweill i ddatblygu dulliau mwy cyson, cryfhau cydweithio a chyflwyno trefniadau mwy ffurfiol gydag ystod ehangach o wasanaethau a allai adrodd am achosion o PCA. Fodd bynnag, roedd llai o gynnydd wedi'i wneud o ran y gwendidau eraill a nodwyd, yn enwedig o ran gwella systemau gwybodaeth, ond roedd awdurdodau lleol yn cydnabod yr angen i flaenoriaethu gwelliannau o'r fath yn y dyfodol.

Adroddodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol peilot fod ganddynt systemau i fonitro cyfnodau pontio allweddol, yn enwedig o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Fodd bynnag, roedd cysondeb ac awtomeiddio'r prosesau hyn yn amrywio, a oedd yn effeithio ar ba mor effeithiol y gallai awdurdodau nodi plant a allai fod yn colli addysg. Roedd monitro trefniadau pontio cynharach, fel o'r feithrinfa i'r dosbarth derbyn, yn fwy amrywiol, gan awgrymu bod hwn yn faes y mae angen ei ddatblygu ymhellach.

Mae olrhain disgyblion sy'n symud rhwng ardaloedd awdurdodau lleol yn parhau i fod yn her. Mae rhannu data rhwng awdurdodau yn aml yn broses araf ac anghyson. Mae gwahaniaethau o ran y ffordd y mae ysgolion yn cofnodi cyrchfannau disgyblion yn ychwanegu at y cymhlethdodau ac yn aml mae'n rhaid i staff awdurdodau lleol fynd ar drywydd y rhain â llaw. Mae hyn yn cynyddu'r risg y gallai rhai plant fynd drwy'r rhwyd, gan danseilio ymdrechion i sicrhau parhad addysg a threfniadau diogelu effeithiol.

Dywedodd pob awdurdod lleol peilot fod ganddo bolisïau sy'n atal ysgolion rhag dadgofrestru disgyblion heb awdurdodiad penodol gan yr awdurdod lleol. Roedd yna hefyd enghreifftiau o arfer da sy'n werth eu hefelychu'n ehangach, fel ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gadarnhau cyrchfan addysgol nesaf disgybl cyn tynnu ei enw oddi ar y gofrestr.

Roedd gan bob ardal beilot gofrestr PCA ar waith eisoes cyn i'r peilot ddechrau, ond roedd y systemau'n amrywio. Roedd gan rai awdurdodau lleol gronfeydd data datblygedig, integredig, ac roedd eraill yn dibynnu ar daenlenni sylfaenol. Roedd effeithiolrwydd y systemau hyn o ran olrhain PCA hefyd yn wahanol. Roedd y dulliau o gofnodi teuluoedd a oedd yn darparu addysg ddewisol yn y cartref a oedd yn addysg anaddas yn anghyson. Cadarnhaodd pob awdurdod fod plant sy'n mynd ar goll heb gyrchfan addysgol hysbys wedi'u cynnwys yn eu systemau PCA, ond bod lefel yr awtomeiddio a gweledededd y data yn amrywio. Roedd y broses o gofnodi pa mor hir y mae plentyn wedi bod yn colli addysg hefyd yn anghyson, ac nid oedd gan rai awdurdodau unrhyw wybodaeth o'r fath.

- **Argymhelliad 1:** Dylai awdurdodau lleol peilot barhau i fynd i'r afael â'r gwendidau a nodwyd yn eu prosesau PCA presennol, gyda chefnogaeth barhaus gan Lywodraeth Cymru a thrwy ddysgu o arfer da mewn meysydd eraill, er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau cenedlaethol.
- **Argymhelliad 2:** Dylai Llywodraeth Cymru roi cyngor ac arweiniad i awdurdodau lleol i sicrhau nad yw'r cyfrifoldeb am PCA yn cael ei roi ar wasanaethau lles addysg yn unig, a bod yr holl adrannau perthnasol, gan gynnwys timau derbyniadau ac ADY, yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Yn yr un modd, dylid cefnogi awdurdodau lleol i sicrhau bod asiantaethau rheng flaen eraill fel cyrff iechyd, yr heddlu, troseddau ieuenctid a gwasanaethau hamdden yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau o ran nodi ac atgyfeirio plant a allai fod yn colli addysg at awdurdodau lleol.
- **Argymhelliad 3:** Dylai awdurdodau lleol peilot wella cysondeb ac awtomatiaeth systemau a ddefnyddir i fonitro trefniadau pontio disgyblion, yn enwedig o flwyddyn 6 i flwyddyn 7 ac o leoliadau meithrin i ysgolion cynradd.
- **Argymhelliad 4:** Dylai awdurdodau lleol peilot ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gwblhau'r maes cyrchfan yn eu System Gwybodaeth Reoli cyn tynnu enw disgybl oddi ar y gofrestr. Ni ddylid caniatáu i ysgolion dynnu enw disgybl oddi ar y gofrestr nes bod y gyrchfan nesaf wedi'i chadarnhau.
- **Argymhelliad 5:** Dylai awdurdodau lleol peilot gofnodi am ba hyd y mae pob plentyn heb fod yn mynychu'r ysgol ar eu cofrestrau PCA er mwyn helpu i fonitro ac ymateb i achosion yn fwy effeithiol.
- **Argymhelliad 6:** Dylid cryfhau a ffurfioli protocolau rhannu data trawsffiniol rhwng awdurdodau lleol fel mater o flaenoriaeth, yn enwedig ar gyfer disgyblion nad ydynt erioed wedi cofrestru mewn ysgol yn ardal yr awdurdod lleol ble maent yn byw.
- **Argymhelliad 7:** Dylai Llywodraeth Cymru atgoffa pob awdurdod lleol sut i gofnodi dysgwyr sy'n cael Addysg Ddewisol yn y Cartref pan ystyrir bod yr addysg a ddarperir yn anaddas. Dylai awdurdodau lleol ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru ar gofnodi'r wybodaeth hon ac unrhyw gamau dilynol a gymerir.

Canfuwyd bod trefniadau ar gyfer rhannu gwybodaeth am symudiadau disgyblion i'r sector ysgolion annibynnol ac oddi yno yn gyfyngedig, yn anghyson ac yn anffurfiol i raddau helaeth cyn y cynllun peilot. Lle roedd trefniadau'n gweithio'n dda, roeddent yn dibynnu ar berthnasoedd lleol yn hytrach na chytundebau rhannu data ffurfiol.

Yn gyffredinol, dywedodd ysgolion annibynnol a gymerodd ran yn y gwerthusiad hwn nad ydynt yn rhannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol am blant sy'n cofrestru yn eu lleoliad, ac

nad oes gofyn iddynt ychwaith hysbysu awdurdodau lleol pan fyddant yn rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol. Dylai mynd i'r afael â'r diffyg cyfnewid gwybodaeth systemig hwn fod yn flaenoriaeth, gan ei fod yn peri risgiau o ran nodi PCA mewn modd amserol. Yn hytrach na dibynnu ar un ymarfer rhannu data blynyddol, byddai'n well mynd i'r afael â'r mater hwn drwy brotocolau parhaus a rhannu gwybodaeth yn rheolaidd.

- **Argymhelliad 8:** Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i gyflwyno cytundebau rhannu data rhwng awdurdodau lleol a'r sector ysgolion annibynnol – neu ystyried gwneud hyn yn ofyniad statudol. Byddai hyn yn sicrhau bod ysgolion annibynnol yn rhannu gwybodaeth ag awdurdodau lleol am bob disgybl ar eu cofrestr ar ddechrau'r flwyddyn academaidd ac yn hysbysu awdurdodau lleol ar unwaith pan fydd disgybl yn gadael eu cofrestr.
- **Argymhelliad 9:** Dylai awdurdodau lleol peilot a'r sector ysgolion annibynnol fyfyrio ar y gwersi a ddysgwyd o'r cynllun peilot ynghylch sut y mae data'n cael eu rhannu rhwng ysgolion annibynnol ac awdurdodau lleol (gweler adran 8.3 am fanylion). Yn benodol, dylid ystyried a fyddai dull wedi'i gydgysylltu'n ganolog yn gwneud y trefniadau hyn yn fwy effeithiol.
- **Argymhelliad 10:** Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu canllawiau cliriach i ysgolion annibynnol ynghylch pa ddisgyblion preswyl i'w cynnwys ar eu ffurflenni data, er enghraifft, a ddylid cynnwys y disgyblion preswyl o fewn ardal yr awdurdod ble maent yn byw neu'r rhai y mae eu cyfeiriad cartref arferol o fewn yr ardal honno.

## 8.2. Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y broses o dderbyn data gan y sector iechyd

Roedd y broses yn effeithlon ac roedd y trefniadau trosglwyddo data o PCGC i'r awdurdodau lleol yn gweithio'n ddidrafferth. At ei gilydd, trosglwyddwyd dros 167,000 o gofnodion yn ddiogel ac yn effeithlon i 7 awdurdod lleol.

Roedd problemau ynghylch fformat, ansawdd a chywirdeb data'r GIG a dderbyniwyd a oedd yn effeithio ar allu awdurdodau lleol i baru'r data a dderbyniwyd â'u cofnodion eu hunain.

Byddai awdurdodau lleol wedi elwa o gael mynediad at fwy o wybodaeth ar gyfer pob cofnod iechyd a dderbynnir. Byddai cael mynediad at gofnodion a oedd yn cynnwys dynodydd unigryw a ddefnyddir gan awdurdodau lleol a'r sector iechyd wedi cefnogi'r gwaith o baru data'n awtomataidd mewn ffordd fwy effeithiol.

**Argymhellion a gynigir rhag ofn y bydd gofynion data'r sector iechyd yn cael eu hailadrodd neu eu cyflwyno'n ehangach yn y dyfodol**

- **Argymhelliad 11:** Dylai awdurdodau lleol peilot rannu gwybodaeth â PCGC am blant y maent wedi'u nodi fel rhai nad ydynt yn mynychu eu hysgolion mwyach ac nad ydynt yn ymddangos ar gronfeydd data'r ALI fel achosion gweithredol mwyach er mwyn caniatáu i GIG Cymru ddiweddaru eu cofnodion.
- **Argymhelliad 12:** Dylai GIG Cymru ystyried cynnwys meysydd data ychwanegol yn y cofnodion a rennir ag awdurdodau lleol er mwyn cynorthwyo gyda'r gwaith o baru setiau data awdurdodau lleol yn fwy cywir. Yn ddelfrydol, dylai cofnodion data

gynnwys data Cyfeirnod Eiddo Unigryw (UPRN), a lle bo modd, enwau rhieni. Dylai awdurdodau lleol nad ydynt yn cadw data UPRN ar hyn o bryd ymchwilio i fabwysiadu hynny.

## 8.3. Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd derbyn data gan ysgolion annibynnol

Roedd y broses o dderbyn data gan ysgolion annibynnol yn anghyson. Nid oedd pob ysgol yn cydymffurfio â'r rheoliadau nac yn cyflwyno data o fewn yr amserlenni gofynnol. Roedd rhai awdurdodau lleol hefyd yn ei chael hi'n anodd gwybod a oeddent wedi derbyn data gan bob ysgol berthnasol, gan iddynt ddweud nad oedd ganddynt fynediad at un gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru. Mewn rhai achosion, roedd ysgolion yn cyflwyno data, ond ni chawsant eu hanfon i'r cyfeiriad e-bost a ddarparwyd gan yr awdurdod lleol, sy'n dangos bod problemau cyfathrebu a chyda throsglwyddo data'n ddiogel.

Roedd ansawdd y data o ysgolion annibynnol hefyd yn gymysg. Er yr ystyriwyd eu bod yn gyfoes yn gyffredinol, roedd y data weithiau'n cynnwys disgyblion nad oeddent o fewn cwmpas y data o ran oedran neu leoliad daearyddol. Cyflwynodd ysgolion ddata mewn amrywiaeth o fformatau a chyda gwahanol lefelau o ddiogelwch, gan dynnu sylw at yr angen i wella prosesau trosglwyddo data. Mae achos cryf dros fabwysiadu'r arfer da a welwyd yn ystod y cynllun peilot, lle y darparwyd templed adrodd Excel i ysgolion ac roedd yn ofynnol i ysgolion uwchlwytho'r data i borth diogel a gynhelir gan yr awdurdod lleol.

Er bod cwblhau'r ymarfer hwn yn ymarferol i ysgolion annibynnol yn ystod y cynllun peilot, a oedd ond yn cynnwys 7 awdurdod lleol, gallai ei ehangu ledled Cymru gyfan greu heriau. Mae hyn yn arbennig o wir am ysgolion sy'n cofrestru plant o sawl ardal awdurdod lleol. Un ateb posibl fyddai i ysgolion gyflwyno data unwaith i borth canolog, gan nodi'r awdurdod lleol y mae pob plentyn yn byw ynddo, ac i'r wybodaeth hon gael ei rhannu â'r awdurdodau perthnasol.

Roedd hefyd yn ymddangos bod rhai cofnodion data a rannwyd gan ysgolion annibynnol eisoes yn hysbys i awdurdodau lleol, yn enwedig disgyblion a gynhelir gan yr awdurdod drwy CDUau ac a osodwyd yn y lleoliadau hyn gan yr awdurdod. Mae hyn yn codi cwestiynau ynghylch pa mor ddefnyddiol yw trosglwyddiadau data o'r fath, ac rydym yn awgrymu y dylid ailystyried y mater hwn os caiff y cynllun peilot ei ailadrodd neu ei gyflwyno'n ehangach.

**Argymhellion a gynigir rhag ofn y bydd gofynion data ysgolion annibynnol yn cael eu hailadrodd neu eu cyflwyno'n ehangach yn y dyfodol**

- **Argymhelliad 13:** Dylai Llywodraeth Cymru hepgor disgyblion sydd eisoes yn cael eu cynnal gan awdurdodau lleol sydd wedi cael eu lleoli mewn ysgolion annibynnol oherwydd eu ADY o unrhyw ymarfer rhannu data yn y dyfodol, gan fod y cofnodion hyn eisoes yn cael eu cadw gan awdurdodau lleol.
- **Argymhelliad 14:** Dylai Llywodraeth Cymru roi canllawiau cliriach i ysgolion annibynnol ynghylch y data y mae angen iddynt eu darparu a beth y dylid ei hepgor. Dylai hyn gynnwys templed adrodd a chyfarwyddiadau clir ar y fformat disgwyliedig

ar gyfer y data. Dylai awdurdodau lleol hefyd sicrhau bod porth diogel ar gael er mwyn i ysgolion allu cyflwyno'r data yn ddiogel.

- **Argymhelliad 15:** Dylai Llywodraeth Cymru rannu cronfa ddata 'r holl ysgolion annibynnol yng Nghymru ynghyd â manylion cyswllt (enw a chyfeiriad e-bost) ag awdurdodau lleol i'w helpu i fonitro ymatebion a sicrhau bod setiau data yn gyflawn.
- **Argymhelliad 16:** Dylid ystyried datblygu porth canolog lle y gall ysgolion annibynnol gyflwyno eu data unwaith, gan symleiddio prosesau adrodd a chyfathrebu. Dylai awdurdodau lleol ymchwilio i sut y gellid sefydlu a rheoli porth canolog o'r fath.

## 8.4. Nodi nifer y plant a allai fod yn colli addysg a ganfuwyd o ganlyniad i'r cynllun peilot cronfa ddata PCA

Bu derbyn data gan y sector iechyd yn werthfawr o ran nodi plant a allai fod yn colli addysg mewn tua hanner yr awdurdodau lleol peilot, ond yn llai defnyddiol yn yr hanner a oedd yn weddill.

Bu data'r cynllun peilot yn arbennig o ddefnyddiol i awdurdodau lleol gwledig llai o faint â phoblogaethau llai byrhoedlog, lle yr oedd y dasg o baru data yn fwy hylaw a gellid cymhwyso technegau paru rhannol lled-awtomataidd yn effeithiol. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, roedd awdurdodau trefol mwy gyda phoblogaethau mwy byrhoedlog, er gwaetha'r ffaith bod ganddynt brosesau PCA a Systemau Gwybodaeth Reoli mwy soffistigedig, yn ei chael hi'n anodd gwneud defnydd llawn o ddata'r sector iechyd oherwydd maint y data a phroblemau gyda'u hansawdd. Treuliwyd cryn dipyn o amser yn paru data â llaw yn yr ardaloedd hyn, ac mewn rhai achosion, ni cheisiodd yr awdurdodau gwblhau'r dasg hon oherwydd y llwyth gwaith trwm sy'n gysylltiedig â hi. Arweiniodd hyn at amrywiad yn nifer y cofnodion heb eu paru ar draws yr awdurdodau peilot hyn.

Roedd yn amlwg o'r gwaith maes bod y broses o nodi plant a allai fod yn colli addysg wedi cael ei llesteirio hefyd gan ddiffyg gwybodaeth am blant sy'n mynychu ysgolion mewn ardaloedd awdurdodau lleol cyfagos. Dylai mynd i'r afael â'r bwlch hwn mewn data fod yn flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol, gan y credwyd bod llawer o blant a allai fod yn colli addysg a nodwyd drwy gronfa ddata'r sector iechyd wedi cofrestru mewn ysgolion y tu allan i'w hawdurdod cartref.

O ran arfer da, bu offer fel Fuzzy LookUp a Power Query Excel yn ddefnyddiol i rai awdurdodau lleol ar gyfer paru cofnodion data yn rhannol. Byddai rhannu'r technegau a'r wybodaeth hon gydag awdurdodau eraill yn fuddiol, yn enwedig pe bai'r cynllun peilot yn cael ei ymestyn ledled Cymru.

**Argymhellion a gynigir rhag ofn y bydd gofynion data'r sector iechyd yn cael eu hailadrodd neu eu cyflwyno'n ehangach yn y dyfodol**

- **Argymhelliad 17:** Dylai awdurdodau lleol hysbysu awdurdod lleol preswyl y plentyn yn awtomatig pan fydd disgybl yn cofrestru mewn ysgol yn eu hardal. Byddai mynd i'r afael â'r bwlch hwn yn gwneud data'r sector iechyd yn y dyfodol yn fwy defnyddiol ac yn haws ei baru, gan helpu awdurdodau i nodi plant a allai fod yn colli addysg yn fwy effeithiol.

- **Argymhelliad 18:** Dylai awdurdodau lleol peilot rannu profiadau a thechnegau ar gyfer paru data awtomataidd a lled-awtomataidd, gan gynnwys offer fel Excel Fuzzy LookUp a Power Query. Byddai hyn yn cefnogi prosesau paru mwy effeithlon a chyson, yn enwedig os caiff y cynllun peilot ei ehangu ledled Cymru.

## 8.5. Cymharu nifer y PCA a oedd yn hysbys cyn ac ar ôl y cynllun peilot cronfa ddata PCA

Mae'r cynllun peilot wedi arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y plant a allai fod yn colli addysg sy'n hysbys i'r awdurdodau sy'n cymryd rhan yn y cynllun - dros 5,000 ar draws y 5 awdurdod lleol a ddarparodd ddata. Fodd bynnag, mae gwaith ymchwil cychwynnol yn awgrymu bod llawer o'r cofnodion hyn yn ymwneud â phlant a oedd wedi symud o'r ardal neu a oedd wedi cofrestru yn ysgolion yr awdurdod lleol cyfagos. Nid oedd sawl awdurdod yn gwybod a oedd y cynllun peilot wedi i helpu i nodi plant a allai fod yn colli addysg a oedd yn anhysbys o'r blaen, gan nad oeddent wedi cwblhau'r gwaith paru data na'r gwaith dilynol angenrheidiol eto. Dywedodd tri awdurdod lleol fod y cynllun peilot wedi eu helpu i wella ansawdd a dibynadwyedd eu data, ac felly wedi helpu i nodi plant a allai fod yn colli addysg.

Mae gwahaniaeth nodedig yng ngallu, parodrwydd a chapasiti awdurdodau peilot i fynd ar drywydd y cofnodion heb eu paru sy'n weddill, ac mae hyn wedi effeithio ar y gwerth y maent wedi'i gael o'r peilot hyd yn hyn. Mewn llawer o achosion, mae'r gwaith o fynd ar drywydd y cofnodion yn dibynnu ar gael mynediad yn gyntaf at ddata gan awdurdodau lleol cyfagos i ddiystyru cysylltiadau hysbys. Mae rhai awdurdodau hefyd yn dymuno cael mynediad at ddata cyflawn gan ysgolion annibynnol cyn bwrw ymlaen. Mewn achosion eraill, ceir amharodrwydd i fynd ar drywydd y cofnodion oherwydd pryderon ynghylch ansawdd a chyfoesedd data'r GIG, ac oherwydd bod y nifer fawr o gofnodion heb eu paru sy'n weddill yn golygu bod y dasg yn dreth ar adnoddau.

Er gwaethaf yr heriau hyn, mae'r cynllun peilot wedi cyfrannu at welliannau yn ansawdd a dibynadwyedd y data ar draws yr awdurdodau lleol sy'n cymryd rhan yn y cynllun.

## 8.6. Penderfynu a oes angen gwneud unrhyw ddiwygiadau i'r rheoliadau neu'r broses o dderbyn data

Rydym yn cytuno â barn yr awdurdodau lleol fod y cynllun peilot wedi bod yn ymarfer gwerth chweil mewn egwyddor, hyd yn oed os nad oedd yn werth chweil yn ymarferol eto, a hynny'n bennaf am ei fod wedi annog gwelliannau i brosesau ac arferion awdurdodau lleol ac wedi rhoi sicrwydd a dilysrwydd iddynt bod eu systemau presennol yn gadarn. Mae'r cynllun peilot wedi helpu i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o sut olwg fyddai ar system rhannu data PCA effeithiol, hyd yn oed pe bai ei heffaith uniongyrchol ar adnabod PCA yn gyfyngedig.

Nid ydym yn argyhoeddedig y byddai ehangu'r cynllun peilot ar ei ffurf bresennol yn ddefnydd effeithiol o adnoddau. Mae hynny oherwydd yr angen i sicrhau cysondeb a'r defnydd o brosesau PCA presennol ar draws yr awdurdodau lleol peilot fel eu bod yn gweithredu yn unol â gofynion statudol presennol a phroblemau parhaus gydag ansawdd y

data yng ngofnodion y sector iechyd. O ran y flaenoriaeth nesaf, dylid mynd i'r afael â'r ddau fater hyn ar y cyd, yn hytrach na gofyn i awdurdodau lleol ailadrodd yr ymarfer neu ei ymestyn i ardaloedd ychwanegol. Ar ôl i'r problemau hyn gael eu datrys, gellid ystyried cyflwyno'r cynllun peilot rhannu data iechyd ar raddfa ehangach.

# Atodiad A: Offerynnau ymchwil

## Canllaw trafod 1: Cyfweliadau â swyddogion awdurdodau lleol

### Cyflwyniad

1. Allwch chi ddweud wrthyf am eich rôl a'ch ymwneud â nodi plant sy'n colli addysg (PCA) o fewn eich awdurdod lleol.
    - Ym mha ffyrdd ydych chi wedi bod yn rhan o gynllun peilot cronfa ddata PCA?

### Dull o nodi PCA

2. I ba raddau y mae eich awdurdod lleol mewn sefyllfa i gyflawni ei ddyletswydd i nodi PCA yn eich ardal chi?
    - Beth wnaeth holiadur hunanasesu eich awdurdod lleol ei ddatgelu? [Gofynnwch am gopi os nad ydych eisoes wedi'i dderbyn]
    - I ba raddau y mae eich awdurdod lleol mewn sefyllfa i gyflawni'r pum maen prawf a nodir yn yr holiadur hunanwerthuso:
        - rheolaeth strategol ac arweinyddiaeth
        - rhwydweithiau a phwyntiau cyswllt
        - systemau gwybodaeth
        - sicrhau darpariaeth addysg
        - systemau effeithiol ar gyfer monitro disgyblion

### Olrhain trefniadau pontio a dadgofrestru

3. Ydy'r awdurdod lleol yn olrhain ac yn cadarnhau trefniadau pontio disgyblion yn rheolaidd mewn cyfnodau allweddol gan gynnwys...
    - O'r meithrin i ddosbarth derbyn?
    - O Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7?
    - Disgyblion sy'n cofrestru mewn ysgolion mewn awdurdodau lleol cyfagos?

4. Sut mae'r awdurdod lleol yn mynd ati i olrhain plant a phobl ifanc sy'n rhoi'r gorau i fynychu'r ysgol?
    - Pa gamau dilynol y mae'r awdurdod lleol yn eu cymryd os nad yw enwau dysgwyr disgwyliedig yn ymddangos ar y gofrestr?
    - Sut mae'r awdurdod lleol yn sicrhau nad yw ysgolion yn tynnu enwau dysgwyr oddi ar y gofrestr?

5. Pa brotocolau sydd gan yr awdurdod lleol ar rannu gwybodaeth am symudiadau disgyblion i'r sector ysgolion annibynnol?
    - Sut mae'r awdurdod lleol yn dilyn hynt dysgwyr sy'n gadael i fynychu ysgolion preifat/annibynnol?

### Cronfa ddata PCA yr awdurdod lleol

6. A oedd gan yr awdurdod lleol gronfa ddata PCA a oedd ar waith cyn y cynllun peilot?

- Pa fathau o ddata sy'n cael eu cofnodi ar y gronfa ddata hon?[4]
- Ydy teuluoedd nad ydynt yn darparu addysg addas wedi'u cynnwys ar y gronfa ddata PCA?
- Ydy plant a phobl ifanc sydd wedi diflannu heb gyrchfan hysbys wedi'u cynnwys yn y gronfa ddata?
- Ydy'r gronfa ddata yn cofnodi'r cyfnod y mae plentyn wedi bod yn colli addysg?

**Derbyn data'r cynllun peilot**

7. Allwch chi ddweud wrthyf am y broses o dderbyn data'r GIG gan Bartneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru fel rhan o'r cynllun peilot.
    - Sut fyddech chi'n disgrifio'r profiad o dderbyn a defnyddio'r data hyn?
    - Pwy oedd yn gyfrifol am lawrlwytho data'r GIG o'r porth?
    - Faint o blant oedd wedi'u rhestru ar y gronfa ddata?
    - Pa agweddau ar y broses weithiodd yn dda?
    - Pa heriau neu broblemau gawsoch chi?

8. Allwch chi ddweud wrthyf am y broses o dderbyn data gan ysgolion annibynnol fel rhan o'r cynllun peilot.
    - Faint o ysgolion ddarparodd eu data i'ch awdurdod lleol erbyn 20 Mai 2025, sef y dyddiad cau?
    - Faint o ysgolion ddarparodd ddata ar ôl 20 Mai 2025?
    - Faint o ysgolion sydd heb ddarparu data i'ch awdurdod lleol eto?
    - Ym mha fformat y cafodd y data eu cyflwyno (e.e. Word, Excel)?
    - Beth oedd cyfanswm enwau'r plant a ddarparwyd gan ysgolion annibynnol?
    - Sut y cafodd y data eu trosglwyddo i'r awdurdod lleol? A gafodd hyn ei wneud mewn ffordd ddiogel?
    - Pa agweddau ar y broses weithiodd yn dda?
    - Pa heriau neu broblemau a gafwyd?

**Dilysu a pharu'r data**

9. Sut aeth yr awdurdod lleol ati i ddilysu a pharu'r data a dderbyniwyd gan y bwrdd iechyd ac ysgolion annibynnol?

---

[4] mae'r rheoliadau'n rhestru'r wybodaeth y mae'n rhaid i awdurdodau lleol peilot ei chynnwys yn gronfa ddata PCA:

- enw'r plentyn (gan gynnwys unrhyw enw blaenorol)
- cyfeiriad y plentyn (neu ei gyfeiriad hysbys diwethaf) gan gynnwys cod post
- dyddiad geni'r plentyn
- enw, cyfeiriad a chod post, rhif ffôn a chyfeiriad e-bost holl rieni'r plentyn
- enw a chyfeiriad y sawl sy'n darparu'r cyfan neu ran o'r addysg.
- unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a allai fod gan y plentyn ac unrhyw ddarpariaeth ddysgu ychwanegol y gelwir amdani.

- Pa gamau wnaethoch chi eu cymryd i groesgyfeirio data'r GIG yn erbyn eich cronfeydd data mewnol (CYBLD, Addysg Ddewisol yn y Cartref, AHY a'r Tu Allan i'r Sir)?
- Pa gamau a gymerwyd i groesgyfeirio data ysgolion annibynnol yn erbyn eich cronfeydd data mewnol (CYBLD, Addysg Ddewisol yn y Cartref, AHY a'r Tu Allan i'r Sir)?
- Pwy oedd yn gyfrifol am gyflawni'r tasgau hyn?

10. [Gofynnwch y cwestiwn hwn os na chafodd y templed casglu data ei ddychwelyd, fel arall cadarnhewch y data] Sawl un o'r cofnodion a dderbyniwyd gan (a) y GIG a (b) ysgolion annibynnol y gwnaethoch chi lwyddo i'w paru (a) yn berffaith a (b) yn rhannol

11. [Gofynnwch y cwestiwn hwn os na chafodd y templed casglu data ei ddychwelyd, fel arall cadarnhewch y data] Faint o gofnodion nad oedd modd eu paru? Pam nad oedd modd paru'r cofnodion hyn?

12. Wnaethoch chi ddefnyddio unrhyw offer/meddalwedd paru data i groesgyfeirio'r data yn awtomatig?
    - Os felly, pa offer/meddalwedd wnaethoch chi eu defnyddio?
    - Pa mor dda wnaeth y rhain weithio?
    - Pa gyfran o'r data a dderbyniwyd oeddech chi'n gallu eu paru'n union yn y ffordd hon?

13. Ydych chi wedi cwblhau unrhyw un o'r tasgau paru data â llaw?
    - Pa gyfran o'r data a dderbyniwyd oeddech chi'n gallu eu paru â llaw?

14. Faint o amser staff a ddefnyddiwyd (neu a fyddai'n cael ei ddefnyddio) i ymgymryd â'r tasgau dilysu data a chroesgyfeirio ar gyfer yr holl ddata a dderbyniwyd?
    - Oedd/oes gan yr awdurdod lleol y capasiti i ymgymryd â'r tasgau hyn?

15. Pa heriau neu broblemau a gawsoch chi wrth baru'r data a dderbyniwyd gan y GIG ac ysgolion annibynnol â chronfeydd data eich ALl eich hun?

16. Pa gynlluniau (os o gwbl) sydd gennych ar gyfer paru gweddill y cofnodion?

**Nodi PCA ac ymgysylltu â nhw**

17. Ydy cymryd rhan yn y cynllun peilot cronfa ddata PCA wedi helpu eich awdurdod lleol i nodi mwy o blant a allai fod yn colli addysg?
    - Gofynnwch y cwestiwn hwn os na chafodd y templed casglu data ei ddychwelyd, fel arall cadarnhewch y data] Faint o gofnodion nad oedd modd eu paru?
    - Cyn y cynllun peilot, faint o PCA oedd yn hysbys i'r awdurdod lleol?
    - Ar ôl y cynllun peilot, faint o PCA oedd yn hysbys i'r awdurdod lleol?

- Faint o blant a allai fod yn colli addysg y mae'r peilot wedi eich helpu i'w hadnabod?

18. Pa gamau y mae eich awdurdod lleol wedi'u cymryd i fynd ar drywydd y plant ychwanegol a allai fod yn colli addysg a nodwyd drwy'r cynllun peilot cronfa ddata?
    - Ydy'r awdurdod lleol wedi ymgysylltu â'r garfan newydd hon o PCA neu wedi ailymgysylltu â dysgwyr sy'n cael eu haddysgu yn y cartref a ystyrir yn PCA?
    - Beth oedd canlyniad y gwaith ymgysylltu hwn?

**Y rheoliadau**

19. I ba raddau y mae rheoliadau cronfa ddata PCA wedi cefnogi eich awdurdod lleol i nodi PCA nad oeddech yn ymwybodol ohonynt o'r blaen?
    - Ydy'r cynllun peilot wedi bod yn ymarfer gwerth chweil?
    - Faint yn fwy gwybodus ydych chi'n teimlo am nifer y PCA yn eich ardal chi?
    - Pa mor hyderus ydych chi bod yr awdurdod lleol yn cael gwybod am bob plentyn o oedran ysgol gorfodol yn eich ardal chi nawr?

20. Gan feddwl am broses rhannu data y bwrdd iechyd
    - Pa welliannau y gellid eu gwneud i broses trosglwyddo data'r GIG?
    - A oes unrhyw newidiadau y byddech yn eu hargymell i'r categorïau o wybodaeth sy'n cael eu trosglwyddo?[5] Os felly, beth ydyn nhw?
    - Pa ddata ychwanegol a allai eich helpu i nodi PCA yn well?
    - A fyddai cynnwys rhif GIG y plentyn ar y data a drosglwyddir yn ddefnyddiol i nodi PCA?
    - Beth allai gael ei wella ynglŷn â chynnwys y data a drosglwyddir e.e. cywirdeb neu ba mor gyfredol yw'r data?

21. Gan feddwl am y broses rhannu data ar gyfer ysgolion annibynnol
    - Pa welliannau y gellid eu gwneud i'r broses trosglwyddo data o ysgolion annibynnol?
    - A oes unrhyw newidiadau y byddech yn eu hargymell i'r categorïau o wybodaeth sy'n cael eu trosglwyddo? Os felly, beth ydyn nhw?
    - Beth y gelli ei wella ynglŷn â chywirdeb a chyfoesedd y data sy'n cael eu trosglwyddo?

22. A oes unrhyw ddiwygiadau neu welliannau pellach, nad ydynt eisoes wedi'u crybwyll, y mae angen eu gwneud i'r rheoliadau er mwyn helpu i nodi mwy o PCA?

[5] Mae'r rheoliadau'n gosod dyletswydd ar fyrddau iechyd lleol i ddatgelu 3 darn o wybodaeth – enw'r plentyn, cyfeiriad a chod post y plentyn, a dyddiad geni'r plentyn.

# Canllaw trafod 2: Cyfweliadau ag ysgolion annibynnol

### Cyflwyniad

1. Allwch chi ddweud ychydig wrthyf am eich ysgol a'ch rôl?
    - Faint o ddisgyblion sydd ar gofrestr yr ysgol ar hyn o bryd?
    - Fel arfer, o ba awdurdodau lleol y daw eich disgyblion?
    - Oes gennych chi unrhyw ddisgyblion preswyl yn yr ysgol? Os felly, faint?

### Olrhain trefniadau pontio a dadgofrestru

2. Pa wybodaeth, os o gwbl, y mae awdurdodau lleol yn gofyn amdani pan fydd disgybl yn cofrestru yn eich ysgol? [Holwch am awdurdod lleol yr ysgol ei hun ac unrhyw awdurdodau lleol cyfagos perthnasol]
    - Pa mor aml y mae'n ofynnol i chi ddarparu'r wybodaeth hon?
    - Ym mha fformat y gofynnir am y wybodaeth?
    - Pa gategorïau o wybodaeth y mae disgwyl i chi eu darparu?

3. Ydy awdurdodau lleol fel arfer yn cysylltu â chi i gael gwybodaeth i gadarnhau trefniadau pontio disgyblion mewn cyfnodau allweddol gan gynnwys...
    - O'r feithrinfa/dosbarth derbyn i oedran ysgol statudol?
    - O Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7?
    - Ydy hyn yn amrywio rhwng gwahanol awdurdodau lleol, ac os felly, sut mae'n amrywio?

4. Sut mae awdurdodau lleol yn ceisio olrhain disgyblion rhwng 5 ac 16 oed sy'n rhoi'r gorau i fynychu eich ysgol? [Holwch am unrhyw wahaniaethau mewn dulliau rhwng awdurdodau lleol]
    - Pa weithdrefnau, os o gwbl, y mae disgwyl i chi eu dilyn i hysbysu awdurdodau lleol am blant sy'n rhoi'r gorau i fynych eich ysgol?
    - Pa wybodaeth, os o gwbl, y mae disgwyl i chi ei rhannu am blant sy'n rhoi'r gorau i fynychu eich ysgol?
    - Ydy awdurdodau lleol yn eich hysbysu o ganlyniad eu hymholiadau pan fydd dysgwr wedi gadael cofrestr eich ysgol?

### Ymwybyddiaeth o'r rheoliadau a'r cynllun peilot

5. Ydych chi'n ymwybodol o Reoliadau Addysg (Gwybodaeth am Blant mewn Ysgolion Annibynnol) (Peilot) Cymru 2025 sy'n ei gwneud yn ofynnol i ysgolion annibynnol ddatgelu gwybodaeth am ddisgyblion cofrestredig i'r awdurdod lleol perthnasol sy'n ymwneud â'r cynllun peilot cronfa ddata PCA?
    - Beth yw pwrpas y rheoliadau, yn ôl eich dealltwriaeth chi?

6. Pryd y daethoch chi'n ymwybodol o'r gofyniad i rannu data gydag awdurdodau lleol sy'n rhan o'r cynllun peilot?
    - Ydych chi'n cofio cael gwybod gan WISC am y cynllun peilot a'r gofynion?

- Ydych chi'n cofio cael gwybod gan Lywodraeth Cymru am hyn?
- Wnaethoch chi / cynrychiolydd o'ch ysgol fynychu'r sesiwn wybodaeth gyda Llywodraeth Cymru ar 6 Mawrth 2025? Os felly, pa mor ddefnyddiol oedd hyn?
- Sut ydych chi wedi ymgysylltu â'r awdurdodau lleol sy'n rhan o'r cynllun peilot?

**Rhannu data ar gyfer y cynllun peilot**

7. Wnaeth eich ysgol rannu data disgyblion ag awdurdodau lleol fel rhan o'r cynllun peilot?
    - Os do:
        - Faint o awdurdodau lleol wnaethoch chi rannu data disgyblion â nhw? Pa un/pa rai?
        - Wnaethoch chi gyflwyno'r data o fewn yr amserlenni a bennwyd (dyddiad cau 20 Mai 2025)?
            - Os naddo, pryd wnaethoch chi rannu'r data?
            - Os naddo, pam wnaethoch chi rannu'r data yn hwyr?
        - Ym mha fformat y cafodd y data eu cyflwyno (e.e. Word, Excel)?
        - Faint o enwau a ddarparwyd i gyd gan eich ysgol?
        - [Lle y bo'n berthnasol] A oedd hyn yn cynnwys data ar ddisgyblion preswyl?
        - Pa gategorïau o wybodaeth wnaethoch chi eu darparu?[6]
        - Sut y cafodd y data eu trosglwyddo i'r awdurdod lleol? Pa gamau a gymerwyd i drosglwyddo'r data mewn ffordd ddiogel?
    - Os naddo,
        - Pam nad oeddech chi'n gallu rhannu'r data?

8. Pa agweddau ar y broses trosglwyddo data weithiodd yn dda?

9. Pa heriau neu broblemau a gafwyd wrth drosglwyddo'r data?

10. Sut y gellid gwella'r broses rhannu data yn y dyfodol?
    - Pa welliannau y gellid eu gwneud i'r broses trosglwyddo data?
    - A oes unrhyw newidiadau y byddech yn eu hargymell i'r categorïau o wybodaeth sy'n cael eu trosglwyddo? Os felly, beth ydyn nhw?
    - Sut y gellid gwella cywirdeb ac amseroldeb trosglwyddo data?

11. A oes unrhyw newidiadau pellach i'r rheoliadau, nad ydynt eisoes wedi'u crybwyll, a allai helpu i nodi mwy o PCA?

[6] Roedd yn ofynnol i ysgolion annibynnol rannu tri darn o ddata gyda'r awdurdod lleol perthnasol: enw'r plentyn, cyfeiriad gan gynnwys y cod post, a dyddiad geni.